



**Drafft – Dim Statws**

**Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol**

**Cyngor Bro Morgannwg**

**2021-2022**

**Gallwch ofyn am y ddogfen hon mewn fformatau eraill.**

**Er enghraifft: ffont mwy; ar bapur lliw gwahanol.**

**Gallwch ofyn am y ddogfen hon yn Saesneg.**

**Fe welwch fersiwn Saesneg ar ein gwefan.**

## Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Cefndir.....	3
Camau a gymerwyd i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol.....	5
Rhesymau dros beidio â chasglu gwybodaeth berthnasol.....	7
Datganiad ar effeithiolrwydd y camau a gymerwyd i ddiwallu bob un o'n hamcanion cydraddoldeb .....	7
Amcan Cydraddoldeb Strategol .....	10
Materion eraill sy'n berthnasol i'r ddyletswydd gyffredinol a'r dyletwyddau penodol.....	36
Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.....	37
Hyfforddiant Cydraddoldeb.....	38
Hyfforddiant Gwrth-Hiliaeth.....	38
Caffael.....	38
Cynllun Hyderus o ran Anabledd.....	39
Pencampwr Amrywiaeth Stonewall.....	40
Rhwydweithiau Staff.....	41
Materion Cydraddoldeb Hiliol.....	42
Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig.....	42
Fforwm Strategaeth 50+ y Fro.....	44
Ymwybyddiaeth o'r Menopos.....	46
Asesiad Llesiant BGC Bro Morgannwg.....	46
Gwasanaethau Hamdden.....	49
Gwerthuso Swyddi.....	53
Cynllun y Gweithlu.....	54
Llyfr Diwilliant.....	54
Gwybodaeth benodol ynghylch cyflogaeth, gan gannwys gwybodaeth ar hyfforddiant a chyflog.....	55
I gael mwy o wybodaeth.....	66

## Cyflwyniad

Mae'n rhaid i ni adrodd ar y cynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb a materion cydraddoldeb eraill bob blwyddyn erbyn 31 Mawrth ar gyfer perfformiad yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r adroddiad hwn yn dweud wrthy ch am ein gwaith cydraddoldeb rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022.

Rydym yn gwneud hyn er mwyn cyflawni ein dyletswyddau o dan:

- Deddf Cydraddoldeb 2010;
- Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (ac elwir y 'ddyletswydd gyffredinol'); a
- y dyletswyddau penodol i Gymru.

Rydym yn dweud wrthy ch sut rydym wedi casglu a defnyddio gwybodaeth i:

- ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon;
- datblygu cydraddoldeb cyfle; a
- maethu cysylltiadau da.

Rydym hefyd yn dweud wrthy ch am:

- sut rydym yn dod ymlaen gyda'n hamcanion cydraddoldeb;
- y bobl a gyflogwn; a
- gwaith cydraddoldeb arall.

## Cefndir

Rydym wedi disgrifio ein prif waith cydraddoldeb yn ein [Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 - 2024](#).

Cytunwyd ar y cynllun hwn ym mis Mawrth 2020. Mae'n datblygu a chynyddu ar ein gwaith o'n cynlluniau blaenorol yn 2012 a 2016. Roedd nifer o bethau roedd yn rhaid i ni wneud i ddatblygu'r cynllun cyntaf. Rydym yn rhestru'r prif gamau isod.

- Fe edrychon ni ar faint o wybodaeth yr oedd gennym ar y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Roedden ni eisiau gwybod pa grwpiau gwarchoddedig oedd yn defnyddio ein gwasanaethau.
- Fe wnaethon ni gwrdd â sefydliadau lleol i weld a oedd meysydd y gallen ni weithio arnyn nhw gyda'n gilydd.
- Fe edrychon ni ar gynlluniau eraill i weld os oedd ganddyn nhw gamau oedd angen bod yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Roedd y rhain yn cynnwys y Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.
- Fe drefnon ni ddigwyddiadau i ni gwrdd â sefydliadau eraill sydd â diddordeb yn anghenion y grwpiau gwarchoddedig. Fe aethon ni i'w cyfarfodydd nhw os nad oedden nhw'n gallu dod i'n rhai ni.
- Fe ymgynghoron ni â'r cyhoedd, staff ac undebau masnach.
- Fe siaradon ni â phobl ynglyn â'r hyn y dylen ni ei flaenoriaethu.

Fe wnaeth hyn ein helpu i benderfynu ar ein hamcanion cydraddoldeb. Mae'r rhain yn rhan bwysig o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Buom yn ymgynghori â phobl eto yn 2019 ar gyfer ein Cynllun 2020 - 2024. Defnyddiwyd adborth o ymgysylltu ac ymgynghori i ddatblygu cyfres newydd o amcanion cydraddoldeb sy'n rhoi ffocws mwy cytbwys i ni rhwng canlyniadau mewnol ac allanol. Rydym wedi datblygu'r rhain gan ddefnyddio ymchwil fwy diweddar fel ['Is Wales Fairer? 2018'](#) gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Rydym hefyd wedi creu cysylltiadau â'n hamcanion llesiant corfforaethol.

I sicrhau ein bod yn cyflawni'r amcanion cydraddoldeb, fe wnaethon ni roi camau mewn cynlluniau gwasanaeth. Mae'r cynlluniau hyn yn arwain gwaith pob gwasanaeth (megis Gwasanaethau Tai, Gweladwy a Chymdeithasol). Mae'n rhaid i bob gwasanaeth fonitro cynnydd gyda'r camau hyn ac adrodd ar hyn.

Mae arweinydd y Cyngor yn arwain ar faterion cydraddoldeb. Ceir hefyd aelod Cabinet ar gyfer Ymgysylltu â'r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddiol i roi cyfarwyddyd ynghylch materion cydraddoldeb, yn ogystal â Hyrwyddwr Cydraddoldeb. Mae cyfarwyddwyr yn arwain ar eu gwasanaeth eu hunain.

Rydym yn cael gwybodaeth am y materion a'r canllawiau diweddaraf mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys trwy'r rhwydwaith Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

## **Camau a gymerwyd i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol**

Rydym wedi bod yn casglu gwybodaeth am bwy sy'n defnyddio ein gwasanaethau am beth amser. Mae dull corfforaethol ar gael ar gyfer gwneud hyn fel y gall Gwasanaethau gasglu data ar grwpiau gwarchodedig mewn ffordd gyson. Rydym yn annog gwasanaethau I wella'r ffordd y maent yn defnyddio'r wybodaeth hon I'w helpu I gynllunio eu gwaith I ddiwallu anghenion pobl yn well.

Yn yr adroddiad eleni, rydym yn adrodd ar y gwasanaethau a ganlyn:

- Anghenion Dysgu Ychwanegol a Llesiant
- Dysgu Oedolion yn y Gymuned
- Gwasanaethau Awtistiaeth
- Budd-daliadau
- Cyfathrebu
- Diogelwch Cymunedol
- Cysylltiadau Cwsmeriaid
- Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl
- Gwasanaethau Etholiadol
- Datrysiadau Tai
- Adnoddau Dynol
- Dysgu a Sgiliau – Mynediad a Threfniadaeth Ysgolion
- Dysgu a Sgiliau – Cynhwysiant Cymdeithasol a Lles

- Dysgu a Sgiliau – Grwpiau Sy'n Agored i Newid
- Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd
- Gwasanaethau Hamdden
- Fforwm Strategaeth 50+ Y Fro
- Polisi a Gwella Busnes –Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Caffael
- Adfywio a Chynllunio – Polisi Cynllunio
- Gwasanaethau Cofrestru
- Gwasanaethau Cymdeithasol - Oedolion
- Gwasanaethau Cymdeithasol - Gwasanaethau Plant
- Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir
- Cronfa Grant Cymunedau Cryf
- Tai – Cefnogi Pobl
- Twristiaeth a Digwyddiadau
- Lles
- Gwasanaethau Ieuenctid

Nid oedd rhai Gwasanaethau'n gallu adrodd gan nad oedd yn bosibl casglu gwybodaeth yn ystod y pandemig oherwydd bod gwasanaethau'n cau.

Pan rydym yn edrych ar y wybodaeth a gasglwyd, rydym yn ystyried:

- y data a gasglwyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf;
- y systemau a ddefnyddiwyd i gasglu'r data; a
- sut mae gwasanaethau'n defnyddio'r wybodaeth hon i wneud gwelliannau.

Mae hyn yn helpu rheolwyr i nodi bylchau yn y wybodaeth a chymryd camau priodol.

I egluro pam fod angen i reolwyr gasglu'r wybodaeth, rydym yn defnyddio canllawiau gan Stonewall. Gallwch weld y canllawiau yn [Atodiad 1](#). Mae'r ffurflen a ddefnyddiwyd gennym i gasglu gwybodaeth yn [Atodiad 2](#).

Gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth am gydraddoldeb y mae Gwasanaethau wedi'i chasglu yn [Atodiad 4](#).

Mae pob gwasanaeth yn dweud sut maen nhw wedi defnyddio'r wybodaeth i ddiwallu tri nod y ddyletswydd gyffredinol.

Mae'r ffurflen a ddefnyddiwn i gasglu gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad hwn yn annog gwasanaethau i ddangos sut maent wedi defnyddio'r wybodaeth i wneud gwelliannau i wasanaethau.

## **Rhesymau dros beidio â chasglu gwybodaeth berthnasol**

Mae rhai o'r rhesymau dros beidio â chasglu gwybodaeth yn cynnwys:

- staff yn gofyn i ddefnyddwyr am wybodaeth bersonol wyneb yn wyneb;
- nad oedd defnyddwyr am gwblhau ffurflen arall yn ychwanegol i ffurflen gais hir;
- pryder nad yw arolygon cyfyngedig yn adlewyrchu darlun cywir;
- ddim gyda systemau i gasglu'r wybodaeth.
- coladu'r wybodaeth yn amrhiodol; ac
- argaeledd data

Rydym yn annog rheolwyr i egluro pa mor bwysig yw'r wybodaeth hon wrth wella gwasanaethau.

## **Datganiad ar effeithiolrwydd y camau a gymerwyd i ddiwallu bob un o'n hamcanion cydraddoldeb**

Dyma amlinelliad byr o sut rydym wedi datblygu ein hamcanion gwreiddiol. Gallwch ddod o hyd i fanylion llawn am hyn yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyntaf.

- Fe wnaethon ni ddefnyddio ymchwil genedlaethol i'n helpu i ddeall y materion. Er enghraifft, fe edrychom ni ar yr adroddiadau 'A yw Cymru'n Deg', a 'Nid dim ond 6

Ystadegyn Arall'. Y Comisiwn Hawliau Dynol a Chydraddoldeb a gynhyrchodd yr adroddiadau hyn.

- Fe edrychon ni ar p'un a oedd gennym unrhyw wybodaeth yn y Cyngor i roi mwy o fanylion i ni.
- Fe siaradon ni â grwpiau ynghylch lles y grwpiau gwarchoddedig.
- Fe ymgynghoron ni â'n staff ein hunain a'r cyhoedd.
- Fe gytunon ni ar yr amcanion cydraddoldeb y bydden ni'n gweithio arnynt am y 4 blynedd nesaf.

Er mwyn adolygu ein hamcanion, edrychwyd ar ymchwil fwy diweddar fel 'A yw Cymru'n Decach? 2018' gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Fe wnaethon ni ymgysylltu ac ymgynghori hefyd. Yn dilyn hyn, fe gytunon ni ar ein hamcanion cydraddoldeb. Rydym yn dangos pa waith rydyn ni wedi'i wneud ar y rhain isod.

**Amcan Cydraddoldeb Strategol Un** – Gwella sut rydym yn cynnwys, ymgysylltu a chyfathrebu â'r nodweddion gwarchoddedig am ein gwaith a'n penderfyniadau

**Amcan Cydraddoldeb Strategol Dau** – Parhau i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y Cyngor, nodi a oes bwlch cyflog ar gyfer lleiafrifoedd ethnig yn y Cyngor erbyn Mawrth 2021, ac adrodd yn ôl yn flynyddol ar y ddau.

**Amcan Cydraddoldeb Strategol Tri** – Gwella cyfleoedd cyflogaeth yn y Cyngor ar gyfer grwpiau gwarchoddedig, yn enwedig pobl anabl a phobl ifanc, er mwyn adlewyrchu'n agosach amrywiaeth y boblogaeth leol erbyn Mawrth 2024

**Amcan Cydraddoldeb Strategol Pedwar** – Parhau i weithio ar ddatblygu amgylchedd gwaith mwy cynhwysol sy'n cefnogi staff o bob cefndir i gyflawni eu potensial, drwy weithredu ystod o gamau gweithredu erbyn Mawrth 2024.

**Amcan Cydraddoldeb Strategol Pump** – Rhoi cymorth a datblygiad i aelodau etholedig ar faterion cydraddoldeb.



**Amcan Cydraddoldeb Strategol Chwech** – Datblygu a gweithredu cynlluniau drwy gydol oes y cynllun hwn er mwyn mynd i'r afael â bylchau mewn cyrhaeddiad i blant a phobl ifanc a darparu cymorth i oresgyn y rhwystrau sy'n eu hatal rhag cyrraedd eu llawn botensial.

**Amcan Cydraddoldeb Strategol Saith** – Datblygu a gweithredu prosesau drwy gydol oes y cynllun hwn i fynd i'r afael â throeddau casineb, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

**Amcan Cydraddoldeb Strategol Wyth** – Ystyried anghenion tai pobl â nodweddion gwarchoddedig a sut mae ein gwaith yn effeithio arnynt, gan gymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau anghymesur ar y grwpiau hyn.

**Amcan Cydraddoldeb Strategol Naw** – Gweithio mewn partneriaeth i ystyried materion sy'n ymwneud â hygyrchedd trafnidiaeth, yn enwedig ar gyfer pobl anabl a phobl hŷn

**Amcan Cydraddoldeb Strategol Deg** – Datblygu a gweithredu cynlluniau drwy gydol oes y cynllun hwn i hyrwyddo ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig a'n treftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys hygyrchedd, i grwpiau gwarchoddedig.

## **Amcan Cydraddoldeb Strategol Un**

### **Gwella sut rydym yn cynnwys, ymgysylltu a chyfathrebu â'r nodweddion gwarchoddedig am ein gwaith a'n penderfyniadau**

Mae'r Tîm Cyfathrebu wedi cynnal nifer o ymarferion ymgysylltu â'r cyhoedd dros y cyfnod hwn gan gynnwys arolygon ac ymgynghoriadau sydd wedi llywio ystod eang o benderfyniadau a chamau gweithredu'r Cyngor. Mae cyfraddau ymateb i arolygon cyhoeddus fel arfer yn uchel. Rydym yn casglu data cydraddoldeb i fonitro hygyrchedd gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd.

- Cynhaliwyd cyfnod ymgynghori ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Ionawr 2022. Anogwyd preswylwyr gennym i gymryd rhan drwy edrych ar y dogfennau perthnasol a chynnig sylwadau arnynt drwy wefan y Cyngor. Hysbysebwyd yr ymgynghoriad ar wefan a chyfryngau cymdeithasol y Cyngor. Derbyniwyd safbwyntiau a sylwadau yn ddigidol, drwy e-bost, a thros y ffôn.
- Cynhaliwyd ymgynghoriad gennym ym mis Rhagfyr 2021 ar y gyllideb ar gyfer 2022/2023 a'r cynnydd posibl yn Nhrefn y Cyngor. Unwaith eto, hysbysebwyd hyn ar y wefan a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol.
- Cynhaliom arolwg ym mis Chwefror 2022 mewn partneriaeth â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i gael barn preswylwyr am y modd y gall y Fro ddatblygu i fod yn fwy oed gyfeillgar.
- Cynhaliodd y BGC ymgynghoriad ar yr Asesiad Llesiant, a ddefnyddir yn sail i ddatblygu'r Cynllun Llesiant.

Mae cyfraddau ymateb i arolygon cyhoeddus fel arfer yn uchel.

Mae'r Tîm Cyfathrebu wedi bod yn ymwneud â rhwydweithiau staff y Cyngor - GLAM a'r Rhwydwaith Amrywiol. Yn rhan o'u gwaith, maent wedi sefydlu tudalennau ar y

fewnrwyd, cyfathrebu gwybodaeth a hyrwyddo digwyddiadau. Mae'r rhwydweithiau'n helpu i godi ymwybyddiaeth ynghylch y problemau y mae cydweithwyr o grwpiau gwarchoddedig yn eu profi a sicrhau bod Bro Morgannwg yn lle cadarnhaol sy'n cynnwys ac yn meithrin preswylwyr a gweithwyr.

Mae ein Tîm Cysylltiadau Cwsmeriaid yn monitro ymatebion i sicrhau bod gan bawb yn y gymuned fynediad cyfartal at y broses gwyno a gwasanaethau cwsmeriaid eraill, gan sicrhau nad ydym yn gwahaniaethu yn erbyn rhai â nodweddion gwarchoddedig. Os nad yw pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig wedi'u cynrychioli yn yr adborth, byddwn yn gwneud gwaith hyrwyddo targededig i sicrhau nad yw'r grwpiau hynny'n cael eu rhoi o dan anfantais annheg oherwydd diffyg mynediad at y broses gwyno.

Pan fyddwn yn derbyn cwynion gan y rhai sy'n rhannu nodwedd warchoddedig, gallwn ganfod sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu i'r grŵp hwnnw gan sicrhau na ceir unrhyw wahaniaethu.

Rydym wedi parhau i weithio ar ein hamseroedd ymateb i gwynion. Yn chwarter 1, ymdriniwyd â 63.04% o gwynion o fewn yr amserlen yn erbyn targed o 75%, sy'n gryn welliant o'i gymharu â pherfformiad yn yr un cyfnod yn 2020/21, sef 59.8%. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi dechrau cyhoeddi ffigurau perfformiad cymharol ar gyfer cwynion a gaiff eu datrys o fewn 20 diwrnod gwaith. Ar sail y mesuriad hwn, mae Cyngor Bro Morgannwg yn y 9fed safle yng Nghymru yn gyffredinol, gydag 84.78% wedi'u datrys o fewn 20 diwrnod, yn erbyn cyfartaledd Cymru o 78.05%.

Rydym wedi buddsoddi mewn llwyfannau digidol i wella ein cyrhaeddiad a'n hymgysylltiad â dinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth, dysgwyr a phartneriaid.

Rydym wedi datblygu cronfa ddata ymgysylltu â'r cyhoedd a chalendr treigl o weithgareddau, ac wedi mabwysiadu porth newydd 'Cymryd Rhan y Fro' ar gyfer e-ddeisebau a gweithgareddau ymgysylltu yn rhan o Strategaeth y Cyngor ar gyfer Cyfranogiad y Cyhoedd.

Rydym wedi canolbwyntio o'r newydd ar ymgorffori llai pobl ifanc ym mhob agwedd ar fusnes y Cyngor: cryfhau'r bartneriaeth rhwng pobl ifanc a'r Cyngor er mwyn siapia ein blaenoriaethau wrth adfer a datblygu gwasanaethau cynaliadwy.

Gwnaethom weithredu cam cyntaf prosiect i wella profiadau cwsmeriaid yn C1V Ychwanegodd hyn ffwythiannau newydd, ee, defnyddio mapiau i adnabod lleoliad digwyddiadau'n well, y gallu i greu cyfrif fel bod preswylwyr yn gallu olrhain trafodion, a chyfathrebu gwell drwy e-bost.

Mae'r timau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cynnwys eu defnyddwyr gwasanaeth mewn amryfal ffyrdd, gan gynnwys penodiadau staff, ymgynghoriadau a phrosesau tendro. Rhoddodd y Gwasanaethau Plant gyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan yn y broses i recriwtio Rheolwyr Gweithredol, a recriwtio i swyddi strategol y Gwasanaethau Cymdeithasol, yn ogystal â'r broses recriwtio a chyfweld ar gyfer Swyddogion Atal y Gwasanaeth Troseddau leuenctid. Sefydlodd y Gwasanaethau Oedolion Banel Defnyddwyr Gwasanaeth o ddinasyddion ag anableddau dysgu ac/neu gorfforol er mwyn gwerthuso tendrau Byw gyda Chymorth. Lluniodd y panel gwestiynau ac atebion enghreifftiol, ac fe'u cefnogwyd drwy gydol y broses gan gydweithwyr o'r Tîm Contractau a Phobl yn Gyntaf y Fro.

Rydym wedi archwilio gwahanol ffyrdd i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol fel offeryn i gyfleu gwybodaeth wrth bobl ifanc a'u teuluoedd a rhannu arolygon â nhw. Rydym wedi cynnwys plant a phobl ifanc er mwyn helpu i ddatblygu fersiynau o ddatganiadau cenhadaeth, holiaduron hunanasesu, ac arolygon sy'n hygyrch ac yn gyfeillgar i blant.

Bu'r Gwasanaeth Lleoli Oedolion yn ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, gan ganfod y dull mwyaf priodol a chyfleus o gyfathrebu ar gyfer pob parti. Roedd hyn yn cynnwys galwadau ffôn, negeseuon e-bost a grwpiau ffocws, yn ogystal â rhoi cymorth i gwblhau arolygon a holiaduron. Gwnaethom gynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn yr ymateb i'r Cynllun Dementia rhanbarthol, gan ganolbwyntio ar anghenion penodol unigolion a gofalwyr mewn clinigau cof a gynhelir yng Nghanolfan Adnoddau Gymunedol y Fro. Yn yr un modd, mae Gwasanaethau Preswyl wedi cyflwyno gweithgareddau i bontio'r cenedlaethau, gan

helpu i sefydlu cymuned leol sy'n gyfeillgar i ddementia, yn ogystal â chysylltiadau rhwng gwahanol grwpiau oedran. Mae gwasanaethau dydd yn cynnal gweithgareddau i hyrwyddo rhyngweithio ac wedi'u cynllunio'n arbennig i gyd-fynd ag anghenion unigol, yn dilyn adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth.

Nid yw'r Gwasanaethau Etholiadol yn monitro data cydraddoldeb bob tro ar gyfer cofrestriadau newydd, ond maent yn gweithio'n galed i gyrraedd demograffeg amrywiol. Er mwyn annog preswylwyr cymwys Bro Morgannwg i gofrestru i bleidleisio, rydym wedi cynnal gweithgareddau amrywiol i sicrhau bod hynny'n agored i bawb.

- Defnyddiwyd ymgyrchoedd y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer Diwrnod Ieuenctid Rhyngwladol a'r Wythnos Democratiaeth Leol.
- Trefnwyd pwynt cyswllt ym mhob cartref gofal ym Mro Morgannwg er mwyn sicrhau bod modd i oedolion sy'n agored i niwed gofrestru heb unrhyw rwystrau.
- Rydym yn defnyddio'r taflenni symud wythnosol a ddarperir inni gan yr Adran Ddigartrefedd fel y gallan annog preswylwyr digartref i gofrestru i bleidleisio. Gwnaethom ddechrau defnyddio taleb siopa £10 fel cymhelliant i unrhyw un sy'n ddigartref neu mewn llety gyda chymorth sy'n cofrestru'n llwyddiannus.
- Rydym yn dosbarthu ein holl hallbwn ar y cyfryngau cymdeithasol i'w rannu â Swyddog Adsefydlu Rhanbarthol Bro Morgannwg, sy'n gweithio gyda gwladolion o Syria ac Affganistan sydd wedi ailgartrefu ym Mro Morgannwg.
- Rydym wedi defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a pheccyn adnoddau i ysgolion a gafodd ei rannu i'w ddisbarthu ar Google classroom a llwyfannau eraill er mwyn annog pobl ifanc i gofrestru.
- Rydym wedi defnyddio hysbysebion safle bws wedi'u hanelu at bobl ifanc a gwladolion tramor cymwys.

- Cynhaliom gystadleuaeth i annog pobl ifanc rhwng 14-17 i gofrestru.
- Rydym yn cynnal ymgyrch ganfasio flynyddol o dŷ i dŷ er mwyn rhoi cyfle i unrhyw un a allai fod angen cymorth gael cofrestru i bleidleisio.

Mae'r Cydwasanaethau Rheoleiddio yn nodi ac yn casglu data cydraddoldeb er mwyn ceisio adborth o fusnesau a chartrefi ynghylch bodlonrwydd cwsmeriaid a sut i wella gwasanaethau. Byddwn yn casglu manylion yr iaith gyntaf a ddefnyddir yn ystod arolygiadau bwyd, ac yn sgil hynny'n defnyddio Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru (WITS) ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg. Rydym yn cynnig mynediad at NoiseApp fel ymateb cychwynnol i fwyafrif y cwynion am sŵn domestig, ond yn cynnig fersiwn wahanol i gwsmeriaid ag anghenion neu anableddau penodol, yn ogystal â Dyddiadur Sŵn ar bapur i gwsmeriaid heb fynediad at dechnoleg ddigidol. Rydym hefyd yn trefnu i gwrdd â defnyddwyr gwasanaeth yn eu cartref os ydynt yn ei chael hi'n anodd mynd i'r swyddfa neu gymryd rhan mewn cyfarfodydd rhithiol. Rydym yn sicrhau ein bod yn parchu digwyddiadau crefyddol wrth amseru ymweliadau ac arolygiadau. O fewn y Cydwasanaethau Rheoleiddio rydym hefyd yn monitro gwybodaeth am gydraddoldeb yn nhermau clefydau trosglwyddadwy. Mae hyn o gymorth inni nodi grwpiau risg penodol, a thargeddu ymyraethau priodol.

## **Amcan Cydraddoldeb Strategol Dau**

**Parhau i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y Cyngor, nodi a oes bwlch cyflog ar gyfer lleiafrifoedd ethnig yn y Cyngor erbyn Mawrth 2021, ac adrodd yn ôl yn flynyddol ar y ddau.**

Rydym yn monitro'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau bob chwarter. Gwelwyd gostyngiad sylweddol yn y bwlch canolrifol rhwng cyflogau'r rhywiau, a adroddir gennym wrth Lywodraeth Cymru. Mae'r bwlch cymedrig rhwng cyflogau'r rhywiau wedi aros yn weddol sefydlog dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Rydym yn adrodd ar hyn yn chwarterol drwy ddangosyddion perfformiad ac yn flynyddol drwy'r adroddiad hwn.

Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi cynyddu rhyw fymryn o gymharu â'r llynedd. Y gwahaniaeth rhwng y gyfradd gymedrig fesul awr i ddynion a menywod yw £0.71, sy'n gynydd o gymharu â £0.60 y llynedd. Y bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau fel canran o gyflog y dynion yw 4.67% a'r bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau fel canran o gyflog y dynion yw 5.73%, sy'n llai na'r bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau yn y DU.

Rydym hefyd yn monitro'r bwlch cyflog ethnigrwydd yn rheolaidd, gan adrodd ar hynny'n rhan o Ddangosyddion Perfformiad Chwarterol y Cyngor. Y gwahaniaeth yn y gyfradd gymedrig fesul awr rhwng Gwyn Prydeinig a Lleiafrifoedd Ethnig yw £0.29m sy'n llai na'r llynedd. Y bwlch cyflog cymedrig o ran ethnigrwydd yw 1.97%. Y gwahaniaeth yn y bwlch cyflogau canolrifol o ran ethnigrwydd yw £0.15m, sef 1.17% ar ffurf canran.

Cafodd yr adolygiad cyflogau diwethaf yn 2019, mewn perthynas â cholofn gyflog ddiwygiedig yr NJC effaith gadarnhaol ar y bwlch rhwng cyflogau'r rhywiau. Rydym yn gwneud gwaith i adolygu'r strwythur cyflogau cyfredol a byddwn unwaith eto'n ystyried bylchau cyflog o safbwynt y rhywiau ac ethnigrwydd. Wrth recriwtio i rolau byddwn yn ystyried lle i osod hysbysebion er mwyn sicrhau ein bod yn cael cynrychiolaeth o blith yr holl grwpiau o ymgeiswyr. Rydym yn parhau i weithio i wella ein proffil amrywiaeth.

## **Amcan Cydraddoldeb Strategol Tri**

**Gwella cyfleoedd cyflogaeth yn y Cyngor ar gyfer grwpiau gwarchoddedig, yn enwedig pobl anabl a phobl ifanc, er mwyn adlewyrchu'n agosach amrywiaeth y boblogaeth leol erbyn Mawrth 2024**

Rydym wedi archwilio sut i gyrraedd gwahanol grwpiau wrth hysbysebu swyddi, drwy ddefnyddio gwahanol gyfryngau a delweddau mwy amrywiol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n rhwydweithiau staff i ystyried sut y gallwn ddenu ystod fwy amrywiol o ymgeiswyr. Rydym yn bwriadu ymgynghori â grwpiau mewnol ac allanol er mwyn nodi rhwystrau i gyflogaeth.

Mae'r Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc (GPPHl) sy'n rhan o'r Gwasanaethau Cymdeithasol, wedi gweithio mewn partneriaeth â'r Adran Adnoddau Dynol ac adrannau eraill y Cyngor i neilltuo lleoliadau Prentisiaeth Fodern Sylfaenol i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Mae'r niferoedd yn dal yn isel, gan nad oedd unrhyw brentisiaethau ar gael yn ystod y pandemig, ond ar hyn o bryd mae un prentis yn gweithio mewn ysgol gynradd ym Mro Morgannwg. Mae person sydd wedi gadael gofal hefyd ar interniaeth/brentisiaeth Llywodraeth Cymru gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae'r GPPHl wedi cynnig cyfleoedd i bobl ifanc a rhai sy'n gadael gofal gymryd rhan yn y broses o recriwtio Rheolwyr Gweithredol ac o recriwtio i swyddi strategol y Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn yr un modd, gwnaeth y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid (GTI) gynnwys pobl ifanc yn y broses o recriwtio a chyfweld Swyddogion Atal y GTI.

Mae Tîm Cymunedau am Waith y Fro yn hyfforddi ei staff prosiect i fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb fel y gallant herio unrhyw achos anghyfreithlon o wahaniaethu, aflonyddu ac erlid, neu unrhyw ymddygiad arall amhriodol. Mae'r rhaglen yn targedu'r rhai sydd bellaf i ffwrdd oddi wrth y farchnad swyddi. Mae hyn yn cynnwys nifer fawr o bobl sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol, y mae rhai ohonynt yn gysylltiedig â iechyd, fel iechyd meddwl ac anghenion arbennig. Rydym yn darparu adnoddau i bobl â rhwystrau cymhleth ac yn anelu i gynnig gwasanaeth cynhwysfawr.

Mae Cyrsiau'r Fro yn parhau i gynnal rhaglen ac ynddi amrywiaeth eang o gyrsiau i oedolion dros un ar bymtheg oed, wedi'u dylunio i wella llesiant a chyfleoedd i ddatblygu diddordebau sy'n cyfoethogi ansawdd bywyd. Cynhelir cyrsiau mewn lleoliadau hygyrch yn y gymuned ar draws Bro Morgannwg. Gan fod y broses ymrestru yn cael ei chynnal dros y ffôn, mae 100% o'r dysgwyr wedi cwblhau proses monitro cydraddoldeb. Rydym yn holi ynghylch anabledau fel y gallwn nodi unrhyw gymorth sydd ei angen wrth ddysgu.

Byddwn yn holi beth yw oedran ein dysgwyr gan fod angen inni sicrhau bod dysgwyr dros un ar bymtheg er mwyn cael eu derbyn i'r cyrsiau. Gwelsom nad oedd unrhyw



ddysgwyr rhwng 16 a 25 wedi ymrestru ym mis Medi 2021, felly ceisiwyd am gymorth drwy'r cyllid Gaeaf Llawn Lles ym mis Mawrth 2022 i ddenu pobl ifanc. Rydym hefyd yn holi ynghylch rhywedd ac wedi canfod mai ond 22% o'r rhai sy'n ymrestru sy'n nodi mai dynion yr ydynt. Bydd angen inni felly edrych ar y rhaglen o gyrsiau ac ymgynghori â'r gymuned i nodi rhwystrau i ddysgu a chyrsiau posibl i ddenu mwy o ddynion. Gall gweithio gyda'n preswylwyr i wella eu lles a datblygu diddordebau drwy'r cyrsiau a gynigir helpu i ysgogi cyflogadwyedd a rhoi hwb i'w hyder wrth chwilio am waith.

Yn yr un modd, mae Dysgu Cymraeg yn y Fro, sydd wedi'i leoli yng Nghanolfan Palmerston, yn defnyddio data monitro cydraddoldeb i gynllunio gwaith hyrwyddo i'r dyfodol. Rydym yn cymharu ein data ag ystadegau ar gyfer y Fro gyfan i amlygu gwahaniaethau a gweld lle gellir targedu dosbarthiadau neu hysbysebion yn y dyfodol. Eleni, bu Dysgu Cymraeg y Fro yn hysbysebu ar Bro Radio i gyrraedd cynulleidfa ehangach, yn darparu prospectysau i ysgolion i dargedu pobl ifanc, ac yn gweithio ochr yn ochr â Theuluoedd yn Gyntaf.

Rydym yn parhau i gefnogi'r rhai sy'n wynebu rhwystrau i gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant trwy ein cynlluniau Cymunedau am Waith. Daeth y prosiect i ben eleni gan gyrraedd 126% yn erbyn y targed, gyda 76 o ymrestriadau gwirioneddol yn erbyn targed o 60 o bobl. Buom yn gweithio gyda'r Ganolfan Byd Gwaith yn 2021 i gyflwyno sesiynau allgymorth i annog mwy o bobl i gymryd rhan yn y cynllun Cymunedau am Waith. Cymerodd mwy o bobl ran na'r llynedd.

Mae nifer y bobl ifanc o Fro Morgannwg nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) ar ei isaf erioed. Ffactorau a gyfrannodd at hyn oedd llwyddiant rhaglenni Ysbrydoli i Gyflawni ac Ysbrydoli i Weithio, a gyllidwyd o Gronfa Gymdeithasol Ewrop, a threfniadau partneriaeth effeithiol, yn enwedig gyda Gyrfa Cymru. Yn ystod hanner olaf y cyfnod hwn, roedd rhwng 125% a 175% y targed o bobl ifanc yn cymryd rhan drwy'r cynllun Ysbrydoli i Weithio. Yn chwarter cyntaf 2021/22, gwelodd menter Kickstart dros 100 o'r 146 o leoliadau ar draws 51 o fusnesau lleol. Erbyn y gaeaf, roedd dros 45 o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed wedi cymryd rhan yng nghynllun Kickstart y Cyngor. Mae tri o'r rhai hynny a gymerodd ran wedi ennill swyddi parhaol.

## **Amcan Cydraddoldeb Strategol Pedwar**

**Parhau i weithio ar ddatblygu amgylchedd gwaith mwy cynhwysol sy'n cefnogi staff o bob cefndir i gyflawni eu potensial, drwy weithredu ystod o gamau gweithredu erbyn Mawrth 2024**

Rydym yn parhau â'n gwaith fel Hyrwyddwr Amrywiaeth Stonewall, drwy ddefnyddio Mynegai Cydraddoldeb Gweithlu Stonewall i lywio ein gwaith. Gohiriwyd cyflwyno i'r fynegai yn 2020 yn sgil y pandemig, ond aildechreuodd hynny yn 2021.

Rydym yn parhau i fonitro a gwerthuso gwelliannau er mwyn cynnwys ein gweithlu LHDTTC+ ymhellach. Unwaith eto, rydym wedi gwella ein statws ym Mynegai Cydraddoldeb y Gweithlu. Mae hyn yn arbennig o drawiadol ac ystyried y cynnydd sylweddol yn nifer y sefydliadau sy'n cymryd rhan yn y Fynegai. Dyfarnwyd gwobr arian inni ar gyfer 2021/22 a safle 190 o 403, a sgôr o 63.5 allan o 200.

Rydym yn gweithio gyda rhwydwaith staff GLAM I godi ymwybyddiaeth ynghylch materion LHDTTC+, i ofyn am adborth ar faterion y gweithlu, ac i wneud ein gweithlu'n fwy cynhwysol.

Rydym hefyd yn gweithio gyda rhwydwaith staff Amrywiol i hyrwyddo profiadau cadarnhaol i staff o leiafrifoedd ethnig. Gwnaethom gymryd rhan yn Wythnos Ymwybyddiaeth Hil am y tro cyntaf yn 2022. Daethom yn sefydliad sy'n gosod esiampl wrth ymrwymo'n fuan i weithredu camau penodol, gan gynnwys cynnal Cyfarfod Lle Diogel ym mis Chwefror 2022.

Rydym wedi parhau i hybu iechyd a llesiant y staff drwy amrywiaeth o weithgareddau a mentrau, yn amrywio rhwng sesiynau ymarfer o bell a chyrsgiau ar-lein. Caiff hyrwyddwyr llesiant eu cefnogi i hyrwyddo llesiant a ffyrdd iach o fyw.

Mae gennym ystod eang o gyrsgiau hunangofrestru ar gael i'r staff ar iDev, y gellir eu cyrchu o ddyfeisiau corfforaethol a phersonol. Gall y cyrsiau hyn helpu staff i gynyddu eu gwybodaeth am grwpiau gwarchoddedig, cynhwysiant a gwahaniaethu, a'u hymwybyddiaeth o hynny. Gall hyn wedyn helpu i wella profiadau staff â

nodweddion gwarchoddedig. Rydym wedi hyrwyddo polisi aflonyddu rhywiol y Cyngor, a drafodir ym Mholisi Cwynion a Datrys Anghydfod y Cyngor. Rydym hefyd yn postio erthyglau ar Staffnet sy'n esbonio ac yn tynnu sylw at ddiwrnodiau ymwybyddiaeth neu arwyddocâd, gan gynnwys yr Wythnos Cynhwysiant Cenedlaethol, Mis LHDTG+ a Mis Hanes Pobl Ddu.

Rydym wedi ystyried sut y gallem hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth mewn ffyrdd sy'n herio stereoteipiau. Wrth hysbysebu swyddi ym maes Gofal Cymdeithasol, rydym wedi cynnwys lluniau o ddynion a merched, sy'n bwysig er mwyn sicrhau ein bod yn cael cynifer o ymgeiswyr addas ag sy'n bosibl. Yn yr un modd, rydym wedi sicrhau cynrychiolaeth deg yn y lluniau mewn hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer swyddi eraill o fewn y Cyngor, yn ogystal â'r graffeg yn yr hysbyseb ar gyfer ein ffair swyddi Gyrfaedd mewn Gofal, er mwyn annog ymgeiswyr o bob rhyw, oed a hil, a ph'un a oes ganddynt anabledd ai peidio. Rydym hefyd yn sicrhau bod unrhyw negeseuon a gaiff eu cyfleu ar y cyfryngau cymdeithasol yn herio stereoteipiau rhyw.

Rydym hefyd wedi dechrau mynd i'r afael â'r chwe maes gweithredu ar gyfer gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd a mamolaeth, gan ganolbwyntio ar yr adroddiad Argymhellion ar gyfer Newid ar gyfer mis Mawrth 2024.

## **Amcan Cydraddoldeb Strategol Pump**

### **Rhoi cymorth a datblygiad i aelodau etholedig ar faterion cydraddoldeb.**

Mae gan aelodau fynediad at IDev lle gallant ddod o hyd i ystod o fodiwlau e-ddysgu ar faterion cydraddoldeb. Gallant hefyd gael mynediad at sesiynau a chyflwyniadau blaenorol drwy MemberNet. Mae gwybodaeth wedi cael ei darparu yn ystod y flwyddyn yn benodol am ymwybyddiaeth hil.

Rydym yn parhau i adolygu hyfforddiant a datblygiad yr Aelodau ac yn trefnu i ddiwallu anghenion a nodwyd. Rydym yn cynllunio i hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth fod yn orfodol i bob aelod o 2022 a bod sesiwn gychwynnol yn cael ei chynnal yn rhan o'r rhaglen Cynefino Aelodau newydd. Bydd hyn yn cynnwys

gwybodaeth gan y rhwydweithiau staff, GLAM ac Amrywiol. Bydd yr hyfforddiant yn cael ei gynnal o fis Mehefin 2022 ar ôl yr etholiadau lleol.

## **Amcan Cydraddoldeb Strategol Chwech**

**Datblygu a gweithredu cynlluniau drwy gydol oes y cynllun hwn er mwyn mynd i'r afael â bylchau mewn cyrhaeddiad i blant a phobl ifanc a darparu cymorth i oresgyn y rhwystrau sy'n eu hatal rhag cyrraedd eu llawn botensial.**

Rydym wedi datblygu a gweithredu camau gweithredu mewn nifer o ffyrdd i fynd i'r afael â bylchau yng nghyrhaeddiad plant a phobl ifanc a allai wynebu rhwystrau i gyrhaeddiad ac ymgysylltiad yn gysylltiedig â'u nodweddion gwarchoddedig.

Bob blwyddyn mae'r Cyngor yn ymgynghori â phreswylwyr ar drefniadau derbyn i ysgolion lle cynigir newidiadau sylweddol i drefniadau derbyn, gan ddefnyddio hynny'n sail ar gyfer asesiadau effaith cydraddoldeb.

Cynhaliwyd dau ymgynghoriad statudol rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022, a arweiniodd at ddau Asesiad Effaith Cydraddoldeb. Ym Mhenarth, y newidiadau a gynigiwyd oedd ymgorffori Ysgol Gynradd Bute Cottage yn Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Feithrin Cogan yn Ysgol Gynradd Cogan. Y cynnig yn Sain Niclas oedd ailadeiladu'r ysgol ar yr un safle, ond gan godi adeilad o faint mwy i gynnwys darpariaeth feithrin hefyd.

Canfuwyd bod y ddau gynnig yn cael effaith gadarnhaol neu niwtral ar grwpiau gwarchoddedig. Yng nghynlluniau Penarth, canfuwyd y byddai effaith gadarnhaol ar y meini prawf oedran ac anabledd, ond dim effaith neu effaith niwtral ar nodweddion gwarchoddedig eraill. Mae cynlluniau Sain Niclas yn adleisio canfyddiadau Penarth, ac ar ben hynny, fel Ysgol yr Eglwys yng Nghymru, byddai cynyddu darpariaeth yn golygu bod modd addysgu mwy o blant mewn ysgol ffydd. O ran anfantais economaidd-gymdeithasol, byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol gan y byddai mwy o gyfleoedd cyflogaeth ar gael yn yr ysgol, a byddai cael darpariaeth feithrin yn yr ardal yn helpu rhieni gydag anghenion gofal plant.

Gofynnwyd y plant hefyd i fynegi eu barn mewn gweithdai ymgynghori, ac fe gynhaliwyd sesiynau galw heibio i rieni, gofalwyr, gwarcheidwaid ac aelodau o'r gymuned hefyd.

Yn ystod 2021/22, cwblhawyd yr adeiladau ysgol canlynol gennym yn unol â'r prosiectau carbon isel a digarbon, yn rhan o'r Rhaglen Buddsoddi mewn Ysgolion a Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif: Agorwyd adeilad newydd Ysgol Uwchradd Pencoedtre ym mis Ionawr 2022, Canolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Uwchradd Whitmore ym mis Medi 2021 ac Ysgol Gynradd South Point ym mis Mawrth 2022 fel ysgol carbon sero net gyntaf Cymru. Dechreuwyd gwaith i adeiladu Ysgol Sant Baruc ym mis Ionawr 2022, yn ogystal â sefydlu Canolfan Adnoddau Anghenion Dysgu Ychwanegol Gladstone.

Mae'r tîm Cynhwysiant yn derbyn hyfforddiant drwy'r Prosiect Gwytnwch i gefnogi anghenion iechyd meddwl a chynig cymorth i ddysgwyr sy'n trawsnewid neu sy'n profi anawsterau iechyd meddwl yn gysylltiedig â'u cyfeiriadedd rhywiol. Maen nhw'n cefnogi dysgwyr, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol yr ysgol, ac yn rhannu adnoddau gan sefydliadau, gan gynnwys Mermaids a Stonewall. Rhoddwyd hyfforddiant arbenigol i'r staff er mwyn gallu darparu gwasanaeth priodol sy'n bodloni anghenion pobl ifanc LHDTC+.

Rydym wedi gwneud gwaith aml-asiantaeth i sicrhau bod ysgolion sydd wedi nodi problemau'n gysylltiedig â phresenoldeb wedi derbyn y cymorth priodol, ac wedi'u cyfeirio i sylw asiantaethau neu weithwyr proffesiynol er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau'n effeithiol. Dangosir hyn yn y gwaith targededig gyda St Cyres a Phencoedtre ar faterion yn gysylltiedig â hil ac anabledau iechyd meddwl.

Byddwn yn monitro'r cyfraddau presenoldeb i ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim (eFSM), gan fod hyn yn ddangosydd anfantais economaidd-gymdeithasol, ac yn allweddol er mwyn hyrwyddo cyfle cyfartal. Rydym hefyd yn monitro anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a rhywedd. Rydym wedi nodi cyfraddau presenoldeb is ymhlith blant â nodweddion gwarchoddedig penodol yn dilyn y pandemig, ac enghraifft o hyn yw'r gostyngiad ym mhresenoldeb plant eFSM.

Derbyniwyd tua 3100 o geisiadau am Grant Datblygu Disgyblion ym mlwyddyn academaidd 2021/22. a thalu 2759 o Grantiau Datblygu Disgyblion, yr oedd 69 ohonynt ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Cyfanswm y gwariant ar Grantiau Datblygu Disgyblion oedd £368,125. Ehangodd Llywodraeth Cymru yr amodau cymhwyso i gynnwys pob blwyddyn ysgol yn 2021, gan olygu ein bod wedi derbyn mwy o geisiadau a dyfarnu mwy o grantiau na'r blynyddoedd cynt. Gall rhieni, gofaluwr a phobl ifanc annibynnol hawlio'r Grant Datblygu Disgybl os ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwyso ar gyfer prydau ysgol am ddim drwy'r un ffurflen gais, felly mae hwn yn ddangosydd da o nifer y plant sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Mae'r Cyngor wedi ymateb mewn modd rhagweithiol gan dargedu cymorth at yr ysgolion hynny lle gwelwyd gostyngiad ym mhresenoldeb dysgwyr Prydeinig nad ydynt yn wyn.

Defnyddiwyd grantiau Addysg Ddewisol yn y Cartref (EHE) i gefnogi a sicrhau bod gan ddysgwyr EHE a chanddynt nodweddion bregus ac/neu nodweddion gwarchoddedig fynediad at gymorth a gwasanaethau. Yn sgil cynyddu'r cymorth gan y tîm EHE, a thargedu'r cymorth hwnnw, llwyddwyd i ymgysylltu mwy â theuluoedd a chael mwy ohonynt i fanteisio ar sesiynau cymorth.

Rydym wedi rhoi pwyslais ar gyflwyno hyfforddiant sy'n ymwneud â materion cynhwysiant / gwahardd a chynlluniau Cymorth Bugeiliol. Crëwyd y tîm Cyrhaeddiad, Llesiant ac Ymgysylltu i gefnogi teuluoedd agored i niwed, y mae gan lawer ohonynt nodweddion gwarchoddedig. Mae'r tîm hefyd wedi galluogi gwell mynediad ac ymgysylltiad ag ysgolion. Mae hyn yn unol ag ymagwedd ehangach y Cyngor i ymdrin ag anghenion disgyblion yn gysylltiedig â thrawma yn gynnar yn eu plentyndod. Mae'r dull hwn yn cynnwys ffocws ar ddeall a bodloni anghenion penodol dysgwyr sy'n agored i niwed, yn hytrach na mabwysiadu cosbau mewn ymateb i ddigwyddiadau sy'n ymwneud â'r dysgwyr hyn.

Mae'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn parhau i gomisiynu a datblygu gwasanaethau i blant, pobl ifanc a theuluoedd, gan gynnwys prosiectau mewnol a phrosiectau eraill a gyllidir gan Teuluoedd yn Gyntaf. Mae'r Bartneriaeth hefyd yn darparu'r Gwasanaeth Llesiant Ieuenctid. Anogir pobl ifanc a defnyddwyr

gwasanaeth i gymryd rhan mewn gwaith aiddylunio neu recriwtio staff, fel cymryd rhan mewn paneli llunio rhestr fer a chyfweld, fel y gwnaed wrth ailgomisiynu tri gwasanaeth o fewn y cyfnod hwn.

Bydd prosiectau a gwasanaethau unigol yn casglu data cydraddoldeb a, lle bo'n berthnasol, bydd hynny'n dylanwadu ar ddyluniad a darpariaeth gwasanaethau. Byddwn yn defnyddio data i wirio deilliannau addysgol a llesiant grwpiau sy'n agored i niwed. Mewn data o ysgolion a'r gymuned adroddwyd cynnydd o 3% yn nifer y bobl ifanc a nododd eu bod yn ferched wrth gyrchu gwasanaethau, sydd bellach yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Nodwyd hefyd gynnydd yn y bobl ifanc nad ydynt yn wyn, a bydd hyn unwaith eto'n cael ei fonitro. Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn adrodd data fesul prosiect, ac ar ôl creu prosesau monitro newydd maent wedi gweld gostyngiad yn nifer yr atebion 'mae'n well gen i beidio dweud'.

Yn dilyn hyfforddiant ar 'No Outsiders' a gynigiwyd i'r ysgolion, prynodd y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc gopi o'r gwerslyfr 'No Outsiders' a phedwar deg pump o wahanol lyfrau a oedd wedi'u hargymell. Mae'r llyfrau, sydd wedi'u hanelu at ddisgyblion oed cynradd, yn trafod amrywiaeth eang o destunau sy'n herio stereoteipiau ac agweddau ar wahaniaethu. Er enghraifft: llyfrau am rywioldeb, mynegiant o rywedd, gwahaniaethu, hil, oedran a derbyn. Dosbarthwyd detholiad o ddeg ar hugain o lyfrau i bob ysgol gynradd.

Cyflwynwyd Polisi Gwrth-fwlio Enghreifftiol i'r ysgolion ym mis Ionawr 2021. Mae'r polisi'n edrych ar bob math o fwlio 'traddodiadol' yn ogystal â digwyddiadau untro yn gysylltiedig â rhagfarn sy'n canolbwyntio ar nodweddion gwarchoddedig, fel hiliaeth, trawsffobia, casineb at ferched/fenywod, Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac anabledd.

Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd ESTYN adroddiad mewn ymateb i ymgyrch dioddefwyr genedlaethol, 'Everyone's Invited'. Teitl yr adroddiad yw 'Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon', ac mae'n canolbwyntio ar aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedon mewn ysgolion uwchradd. Yn ôl yr adroddiad, roedd hi'n destun pryder hefyd gweld achosion o homoffobia, trawsffobia a deuffobia mewn ysgolion. Mewn ymateb i hynny, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru restr o un argymhelliad ar ddeg i

ysgolion, Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru. Rydym yn bwrw ymlaen â'r camau hyn yn ein hysgolion ar hyn o bryd.

Ers mis Tachwedd 2021, mae gwaith i gasglu a dadansoddi data bwlio mewn ysgolion a data ar ddigwyddiadau rhagfarn untro wedi cael ei awtomeiddio drwy system TGCh o'r enw 'Clarity'. Gall y system echdynnu data dienw o system TGCh 'Fy Mhryder', sef system rheoli cofnodion TGCh a ddefnyddir gan bob ysgol ym Mro Morgannwg, ac a ddyluniwyd yn arbennig i reoli unrhyw bryderon diogelu. O ddadansoddi'r data hyn, gwelir y canlynol:

- Cofnodwyd 133 o achosion o fwlio ar draws yr holl ysgolion.
- Y categori bwlio lle cofnodwyd y lefelau uchaf oedd 'bwlio sy'n canolbwyntio ar ymddangosiad' (29 o gofnodion), ac yna bwlio Homoffobig/Deuffobig/Trawsffobig (18 o gofnodion).
- Y dull mwyaf cyffredin o fwlio oedd bwlio geiriol (56 o gofnodion), ac roedd 1 cofnod lle defnyddiwyd unrhyw fath o rym corfforol.
- Cofnodwyd cyfanswm o 48 o 'ddigwyddiadau rhagfarn untro', y cofnod uchaf ar gyfer categori penodol oedd y cofnod ar gyfer 'hil', gyda 27 o ddigwyddiadau wedi'u cofnodi.

Ar hyn o bryd, nid ydym yn gallu archwilio unrhyw ddata cymaradwy ar sail blwyddyn academiaidd/fesul tymor, gan na fu'r dull newydd o adrodd ond yn weithredol ers mis Tachwedd 2021. Dylai hyn fod yn bosibl yng nghyfnod adrodd 2022/2023.

Rydym yn ymgysylltu'n frwd â darparwyr trydydd sector er mwyn iddynt helpu ysgolion i godi ymwybyddiaeth ynghylch hiliaeth a mathau eraill o ragfarn.

Mae peilot, a oedd yn cynnwys penodi Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd a'r Gymuned dros dro, gan dargedu dysgwyr o gefndiroedd lleiafrifol ethnig, wedi cael ei gynnal gan y Tîm Grwpiau Agored i Niwed, ar y cyd ag Ysgol St Cyres. Dysgwyd



llawer o'r peilot, ac fe gafwyd awgrymiadau ystyrlon mewn ymateb i'r canfyddiadau, gan gynnwys fframwaith arfaethedig ar gyfer ymarfer gwrth-hiliaeth. Mae'r Fframwaith yn esbonio sut y gall Ysgol St Cyres, yr awdurdod lleol ac ysgolion eraill godi dyheadau, cyrhaeddiad a phresenoldeb dysgwyr o gefndiroedd lleiafrifol ethnig ar draws Bro Morgannwg.

Ochr yn ochr â'r peilot, Ysgol St Cyres oedd yr ysgol gyntaf ym Mro Morgannwg i ennill gwobr Ysgol Noddfa ym mis Mawrth 2022. Yn sgil hyn, mae'r Tîm Grwpiau Agored i Niwed wedi dod yn aelodau gweithgar o rwydwaith Ysgolion Noddfa y DU, gan ddangos i'n hysgolion eraill sut y gallant groesawu pob plentyn a chefnogi disgyblion i deimlo eu bod yn cael eu gweld, eu cefnogi a'u cynnwys.

Mae tîm 14+ y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc wedi gweithio i ymgysylltu mwy â'r rhai sy'n gadael gofal. Rydym wedi hyrwyddo tudalen Facebook y tîm, nad yw ond ar agor i rai sydd wedi gadael gofal. O ganlyniad i hyn, gwneir llawer mwy o ddefnydd o'r dudalen nag o'r blaen, ac mae'n ffordd dda o rannu gwybodaeth ddefnyddiol i rai sydd wedi gofal, ac yn cynnig cyfle i gyfathrebu drwy Messenger. Ar ôl ymgynghori â gofaluwr maeth, pobl ifanc a sicrwydd ansawdd y Gwasanaethau Cymdeithasol, gallwn bellach anfon holiaduron drwy neges-destun neu e-bost sy'n cynnwys dolen. Mae hyn yn ei gwneud hi'n haws i bobl ifanc ymateb i'r arolwg, gan gynyddu nifer yr ymatebion a geir a'u helaethrwydd.

Mae bywyd teuluol a chartref diogel yn hollbwysig er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau mewn cyrhaeddiad, ac er mwyn rhoi cymorth i oresgyn rhwystrau rhag gwireddu potensial llawn. Er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu dechrau gorau posib mewn bywyd, rydym wedi gweithredu drwy ein strategaethau mabwysiadu a maethu.

Rydym wedi bod yn gweithio ar strategaeth recriwtio'r gwasanaeth Mabwysiadu ac ar sut i ddenu ceisiadau o ddemograffeg ehangach. Rydym felly'n monitro nodweddion gwarchoddedig ymgeiswyr, yn enwedig statws priodasol a ffydd neu gred yr ymgeisydd. I'r perwyl hwn, rydym wedi bod mewn cysylltiad â grwpiau mabwysiadu Cristnogol a Mwslimaidd i sefydlu perthnasoedd gwaith. Yn yr un modd, rydym wedi bod yn ymwneud â New Family Social, asiantaeth mabwysiadu

LHDTC+. Adlewyrchir y gwaith hwn mewn trydариadau gan y Cyngor ym mis Hydref 2021 a mis Gorffennaf 2022, lle defnyddiwyd lluniau, testunau ac emojis cyplau unrhyw mewn postiau hyrwyddo yn gysylltiedig â mabwysiadu.

Rydym wedi gweithio i hyrwyddo'r gwasanaeth maethu ac i ddarparu gwybodaeth glir a dealladwy am sut i fod yn ofalwr maeth. Mae hyn wedi cynnwys gwneud mwy i fonitro nodweddion gwarchoddedig. Rydym wedi cynnal ymgyrchoedd chwalu mythau a defnyddio grwpiau tangynrychioledig mewn gwaith hyrwyddo i herio canfyddiadau ynghylch gofalwyr maeth. Postiwyd erthyglau gennym ar ein gwefan allanol ym mis Medi 2021 i hyrwyddo menter Maethu Cymru i gadw plant sy'n derbyn gofal yn yr un ardal. Rydym yn parhau â'r gwaith a ddechreuwyd yn 2019 i ddiweddarau'r ddogfen Gwybodaeth am Blant, ar ôl ymgynghori â gweithwyr proffesiynol, gofalwyr maeth a phobl ifanc. Rydym hefyd wedi diweddarau holiaduron y gwasanaeth maethu i gynnwys safbwyntiau pobl ifanc ac wedi addasu cwestiynau i gyd-fynd ag oedran a gallu.

Yn yr haf, cynhaliwyd seremoni gwobrwyo gofalwyr maeth wedi'i threfnu gan y Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc yng Nghlwb Chwaraeon a Chymdeithasol Sili i gydnabod a dathlu cyflawniadau. Roedd hwn yn gyfle cadarnhaol i ryngweithio â gofalwyr maeth a staff o adrannau eraill, gan gynnwys yr Adran Addysg.

Rydym yn monitro data ar nodweddion gwarchoddedig ar gyfer y Llinell Gyngori Teuluoedd yn Gyntaf, gan fod y gwasanaeth yn cael ei bersonoli ar sail anghenion a phryderon y teulu. Yn yr un modd, mae FACT (Teuluoedd yn Cyflawni Newidiadau Gyda'i Gilydd) yn monitro nodweddion gwarchoddedig i ganfod asiantaethau priodol a all helpu i ddatblygu cynllun gweithredu i'r teulu. Mae'r ddau dîm yn cefnogi ac yn helpu i rymuso teuluoedd i roi newidiadau ar waith i helpu plant a phobl ifanc i oresgyn rhwystrau rhag gwireddu eu potensial. Mae tîm Dechrau'n Deg hefyd yn chwarae rhan bwysig er mwyn helpu teuluoedd i roi dechrau gwell i'w plant mewn bywyd, a gwella datblygiad, iechyd a llesiant plant yn barod am yr ysgol. Mae lleoliadau gofal plant, gwasanaethau cymorth a gwasanaethau ymwelwyr iechyd wedi dychwelyd i'w dull o weithredu cyn y pandemig. Mae'r gwasanaeth yn ymgysylltu â rhieni a gofalwyr drwy arolygon a holiaduron, gan weld bod y cyfryngau cymdeithasol yn arf anhepgor er mwyn cysylltu teuluoedd â'r gwasanaethau cywir.

Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid (GTI) wedi datblygu fersiwn o'u datganiad cenhadaeth a'u hunanasesiad sy'n gyfeillgar i blant, a hefyd wedi cynnwys pobl ifanc mewn grwpiau ffocws ac ymgynghoriadau. Mae plant a phobl ifanc hefyd wedi bod yn rhan o'r broses recriwtio a chyfweld ar gyfer Swyddogion Atal y GTI. Mae'r GTI yn asesu'r holl blant a phobl ifanc o fewn y gwasanaeth i nodi unrhyw anghenion neu nodweddion gwarchoddedig lle mae angen cymorth ychwanegol neu gyfeirio i sylw gwasanaethau priodol, gan sicrhau bod pob defnyddiwr gwasanaeth yn cael y cymorth cywir i wireddu ei botensial llawn.

Gweithredwyd Rhaglen Atal Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn Gynnar i bobl ifanc. Mae'r rhaglen wedi helpu i sicrhau gostyngiad o 48.25% yn y nifer sy'n cael eu derbyn i'r system cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf.

Manteisiodd dros 1,400 o bobl ifanc agored i niwed ar brosiectau gwaith ieuenctid, ymyriadau, cymorth llesiant, mentora llesiant ac atal digartrefedd y ddigidol ac wyneb yn wyneb.

## **Amcan Cydraddoldeb Strategol Saith**

**Datblygu a gweithredu prosesau drwy gydol oes y cynllun hwn i fynd i'r afael â throeddau casineb, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.**

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau i atal ac amddiffyn pobl rhag cam-drin domestig, ac i ymateb i hynny. Mae'r Cyngor yn cydweithio â Chyngor Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a phartneriaid eraill i weithredu camau'n unol â'r Strategaeth 5 Mlynedd Ranbarthol ar gyfer Trais yn Erbyn Menywod, Trais Domestig a Thrais Rhyw (VAWDASV) (2018-2023). Mae'r strategaeth yn cydnabod yr angen i ganolbwyntio ar sicrhau bod gwasanaethau'n deg i rai â nodweddion gwarchoddedig. Mae'n rhoi pwyslais ar drais ar sail anrhydedd neu briodas dan orfod, gan sicrhau ein bod yn gweithio i wella'r ddealltwriaeth o effaith priodasau dan orfod ar unigolion â nodweddion gwarchoddedig. Mae'r tîm Diogelwch Cymunedol wedi bod yn gweithio gyda

chydweithwyr VAWDASV yng Nghaerdydd er mwyn paratoi i ailwampio strategaeth VAWDASV yn 2023.

Mae gan y Cyngor Gydgysylltydd Atgyfeirio Asesiadau Cam-drin Domestig (DAARC) sy'n derbyn adroddiadau gan yr heddlu am ddigwyddiadau cam-drin domestig.

Rydym yn cynnal asesiad risg cadarn ac yn cynnig cymorth i ddioddefwyr a'u cyfeirio i wasanaethau eraill, yn dibynnu ar eu dymuniadau a'u hanghenion. Yn ddiweddar, gwnaethom ddechrau gofyn mwy o gwestiynau er mwyn cael dealltwriaeth lawn o'r gydberthynas rhwng trais domestig a nodweddion gwarchoddedig, gan gynnwys hil.

Rydym hefyd yn gyfrifol am gydgysylltu'r Cynadleddau Asesu Risg Aml-asiantaeth a gynhelir bob pythefnos i drafod achosion cam-drin domestig risg uchel. Bydd amrywiaeth o asiantaethau, gan gynnwys adrannau'r Cyngor, yn cydweithio i greu cynlluniau gweithredu i roi'r gefnogaeth orau i ddioddefwyr a'u teuluoedd, a sicrhau bod risgiau'n cael eu lliniaru. Dros y flwyddyn, adroddodd 100% o ddioddefwyr cam-drin domestig eu bod yn teimlo'n fwy diogel yn eu cartrefi eu hunain yn sgil mesurau caledu targed a diogelwch.

Gwnaethom ailgomisiynu Atal y Fro yn 2021/22 fel y darparwyd cymorth arbenigol ym Mro Morgannwg. Mae Atal y Fro yn gweithio gyda Chyngor a Thîm Cefnogi Pobl y Fro i sicrhau bod gan ddioddefwyr cam-drin domestig fynediad at gymorth, cefnogaeth a diogelwch. Mae hyn yn cynnwys lloches; tai ail gam a gwasgaredig; a chwmsela a rhaglenni perthnasol, gan gynnwys allgymorth. Rydym yn gweithio gydag amryw o wasanaethau arbenigol i gyfeirio dioddefwyr a allai fod angen cymorth o fath gwahanol:

- Bawso - gwasanaethau cyffredinol ac arbenigol i gymunedau du a lleiafrifol ethnig sy'n dioddef effeithiau neu'n wynebu risg o gam-drin domestig a phob math o drais, gan gynnwys anffurfio organau cenhedlu benywod, priodas dan orfod, trais ar sail anrhydedd, masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth fodern.

- Prosiect Dyn Cymru Ddiogelach – gwasanaethau cymorth i ddynion syth, hoyw, deurywiol a thraws sy'n profi cam-drin domestig gan bartner.
- Rainbow Bridge – gwasanaeth a gynhelir gan Cymorth i Ddiodefwyr sy'n rhoi cymorth yn benodol i ddiodefwyr cam-drin domestig sy'n nodi eu bod yn lesbiaidd, yn hoyw, yn ddeurywiol neu'n draws.
- Byw Heb Ofn – gwasanaeth Llywodraeth Cymru sy'n rhoi cymorth a chynghor am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
- Llwybrau Newydd – yn cynnig gwasanaeth cwnsela i fenywod, dynion a phlant yn gysylltiedig â cham-drin domestig sy'n digwydd ar y pryd neu o'r gorffennol.

Mae'r Bartneriaeth Bro Ddiogelach wedi parhau i weithio gyda Chynghor Bro Morgannwg i greu amgylchedd sy'n fwy diogel i breswylwyr, gweithwyr ac ymwelwyr, yn rhydd rhag trosedd, anrhefn ac ofn rhag trosedd. Mae strategaeth Partneriaeth bro Ddiogelach 2020-2023 yn canolbwyntio ar ymddygiad gwrthgymdeithasol, cam-drin domestig, cydlyniant cymunedol ac ymgysylltiad cymunedol, gan ymateb yn weithredol i unrhyw faterion eraill sy'n codi yn y gymuned.

Rydym wedi ymgysylltu mwy ag aelodau o'r cyhoedd ynghylch cynghor, cefnogaeth ac ymwybyddiaeth o ddiogelwch cymunedol. Mae aelodaeth y Bartneriaeth Bro Ddiogelach ar y cyfryngau cymdeithasol wedi cynyddu i 935 o ddilynwyr ar Twitter, 557 o ddilynwyr ar Facebook a 155 o ddilynwyr ar Instagram, sydd wedi derbyn dros 350 o drydariadau, dros 440 o bostiau Facebook a thros 40 o bostiau Instagram. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd cadarnhaol yn nifer y negeseuon cynghori a chefnogi sy'n cael eu rhannu. Rydym yn rhoi gwybod i bobl am ddiodefwyr ymgyddiaethau ymgysylltu diogelwch cymunedol; rydym yn addysgu ac yn hysbysu pobl ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol a hysbysiadau twyll; ac rydym yn codi ymwybyddiaeth ynghylch ymgyrchoedd lleol a chenedlaethol a diwrnodiau o bwys, gan gynnwys Ddylai neb fod yn ofnus gartre, Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, Mis Hanes LHDT, Dim Esgus, a Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl.

Mae gennym Swyddog Cydlyniant Cymunedol sy'n ymgysylltu ag aelodau o'r gymuned i hyrwyddo cynhwysiant a chael gwared â gwahaniaethu, aflonyddwch ac erledigaeth. Mae'r swyddog hefyd yn gweithio i gynyddu aelodaeth y Grŵp Cydlyniant Cymunedol, ac i rannu gwybodaeth am ddiogelwch cymunedol er mwyn helpu i greu cymunedau mwy diogel a chydlynol. Mae'n gweithio'n agos gyda Swyddog Troseddau Casineb Heddlu De Cymru er mwyn cadw ffigurau trosedd yn y Fro yn is na chyfartaledd De Cymru. Mae'r Swyddog Cydlyniant Cymunedol hefyd yn gweithredu'n gysylltiedig â'r Broses Monitro Tensiwn yn y Fro. Daeth 43 o ffurflenni monitro Tensiwn i law y llynedd, sy'n gynydd o 72% o gymharu â'r flwyddyn gynt. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwaith hyrwyddo a wnaed gan y tîm i gynnig ymyriad cynt mewn materion cymunedol, gan weithio ochr yn ochr â chydweithwyr o Heddlu De Cymru a'r Adran Dai.

Mae'r Tîm Diogelwch Cymunedol yn gyfrifol am symud Agenda CONTEST yn ei blaen ledled y Fro. Eleni, dechreuwyd ad-drefnu'r Bwrdd Atal, sy'n monitro'r Panel Sianelu. Bwrdd aml-asiantaeth yw'r Panel Sianelu, lle trafodir unigolion y tybir bod peryg iddynt gael eu radicaleiddio, gan roi cefnogaeth ac ymyriadau iddynt i'w hatal rhag cael eu denu tuag at ymddygiad eithafol neu derfysgol. Mae'n hanfodol er mwyn deall tueddiadau a rhannu adnoddau. Yn rhan o'r ad-drefnu, bydd Cynllun Gweithredu Atal newydd hefyd yn cael ei greu.

Mae aelodau o staff o'r Adran Dysgu a Sgiliau wedi mynychu gwahanol sesiynau hyfforddi gwrth-hiliaeth er mwyn sicrhau bod y gweithdai mwyaf priodol a buddiol yn cael eu cynnal yn ysgolion y Fro.

## **Amcan Cydraddoldeb Strategol Wyth**

**Ystyried anghenion tai pobl â nodweddion gwarchodedig a sut mae ein gwaith yn effeithio arnynt, gan gymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau anghymesur ar y grwpiau hyn.**

Mae adolygiad eang o'r Cynllun Homes4U ar y gweill, i sicrhau bod yr holl dai cymdeithasol yn cael eu dyrannu mewn modd cymesur. Rydym wedi dechrau cynnal trafodaethau â phartneriaid am gynlluniau ymgynghori.

Rydym wedi adolygu a diwygio'r broses ddyrannu ar gyfer teuluoedd sydd angen tai hygyrch er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr anabl yn cael eu hystyried ar gyfer nifer fwy o gartrefi.

Mae atal digartrefedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Rydym wedi comisiynu swyddogion drwy Wasanaeth Cefnogi Pobl y Cyngor/y Grant Cymorth Tai i gefnogi ymagwedd Ailgartrefu Cyflym Llywodraeth Cymru er mwyn dechrau adennill tir ar ôl pwysau'r pandemig.

Rydym yn parhau i ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru i gael gwared ar ymchwiliadau angen blaenoriaethol, fu'n elfen bwysig i reoli'r galw yn y gorffennol. Mae'r nifer sy'n eu cyflwyno eu hunain yn ddigartref ac sy'n gwneud cais am dŷ wedi cynyddu ers cael gwared â'r prawf hwn, yn enwedig dynion sengl. Mae hyn wedi rhoi mwy o bwysau ar ddarpariaeth llety dros dro a chynyddu'r angen i gaffael llety mewn gwestai. Archebwyd 126 o ystafelloedd gwesty mewn bloc hyd at 31 Mawrth 2022.

Mae cydweithwyr o'r Adran Adfywio a Chynllunio wedi gweithio gyda'r Gwasanaethau Tai yn rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd i gynnal asesiadau llety Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r gwaith yn parhau, ond fe'i dechreuwyd yn ystod y cyfnod hwn.

Nododd y tîm Plant a Phobl Ifanc (PPhI) fwllch mewn darpariaeth llety i bobl ifanc dros 16 oed sy'n ymwneud â'r tîm PPhI a chanddynt anghenion cymhleth. O ganlyniad i hynny, mewn partneriaeth â'r adran Dai a darparwyd o'r trydydd sector, agorwyd darpariaeth llety gyda chymorth i bobl ifanc ac oedolion ag anghenion cymhleth. Mae hyn yn helpu'r Cyngor i ddarparu llety priodol i bobl ifanc ac oedolion a fyddai fel arall yn wynebu risg o fod yn ddigartref.

Mae cwsmeriaid sy'n dymuno hawlio Budd-dal Tai a Gostyngiad i'r Dreth Gyngor bellach yn gwneud hynny drwy ffurflenni cais ar-lein. Rydym yn cynnwys cwestiynau

monitro cydraddoldeb yn rhan o'r cais ar-lein, felly mae symud oddi wrth geisiadau papur yn golygu ein bod bellach yn gallu archwilio nodweddion gwarchoddedig fel rhyw, oedran ac anabledd yn fanylach. Gall cwsmeriaid hefyd ddewis eu cenedligrwydd neu grŵp ethnig. Ni fydd hynny'n cael unrhyw effaith ar eu hawl i fudd-dal, ond gellir monitro'r wybodaeth am resymau cydraddoldeb. Ar y cyfan, mae'r gyfradd ymateb yn wael i holiaduron bodlonrwydd cwsmeriaid, yn enwedig gan fod oriau agor y gwasanaeth cownter wyneb yn wyneb wedi lleihau ers 2020 oherwydd y pandemig.

Rydym yn echdynnu ac yn archwilio data ar oedran, anabledd a statws incwm cwsmeriaid budd-dal drwy gydol y flwyddyn ariannol i fonitro'r llwyth achosion a thueddiadau. Fe'i defnyddir hefyd i adrodd am gywirdeb a'r llwyth achosion wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'r data hyn hefyd o gymorth i gynllunio cyllidebau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Thaliadau Tai Dewisol, gan mai cynlluniau lleol yw'r rhain nad ydynt wedi'u cyllido'n llawn gan y llywodraeth ganolog. Mae echdynnu data hefyd yn ein helpu i gynllunio i'r dyfodol ac ystyried lefelau staffio.

Gwnaethom barhau i weld gostyngiad yn y llwyth achosion Budd-dal Tai oedran gweithio dros y cyfnod hwn, yn ogystal â chynnydd mewn ceisiadau am Ostyngiadau'r Dreth Gyngor oedran gweithio i rai nad ydynt yn cael budd-dal sy'n rhoi hawl iddynt dderbyn yr uchafswm o Ostyngiad Treth Gyngor. Mae'r canfyddiadau hyn yn amlygu'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol ym Mro Morgannwg, y mae'r rhan fwyaf ohonynt hefyd yn gweithio. Mae hyn yn ein helpu i ddeall gofynion economaidd-gymdeithasol ein cymunedau.

Mae staff budd-daliadau hefyd yn cydweithio'n agos â chydweithwyr o'r Gwasanaethau Digartrefedd a Thai, gan gynnwys y Tîm Cyngor Ariannol, er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i gleientiaid sy'n gyffredin rhwng y gwasanaethau. Yn ychwanegol at hyn, mae'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn helpu pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain a pharhau i fyd yn eu cymunedau eu hunain. Mae'r lefelau bodlonrwydd uchel ymhlith cwsmeriaid wrth ddarparu'r grant cyfleusterau i'r anabl yn dangos sut mae'r cynllun yn cynnwys cwsmeriaid a theuluoedd â nodweddion gwarchoddedig yn effeithiol ym mhob cam o'r broses ddylunio a phenderfynu.



Cymeradwywyd cynlluniau gennym i ddatblygu stoc tai'r Cyngor ar draws tri safle yn y Barri, sy'n cynnwys tai wedi'u haddasu yn Clos Holm View i breswylwyr anabl a theuluoedd ag anableddau. Gwnaethom ddarparu un uned ar ddeg o dai ecogyfeillgar modiwlaid ar Court Road, gydag ardaloedd allanol er mwyn helpu i annog rhyngweithio cymdeithasol a meithrin cymuned. Llety dros dro hunangynhaliol yw'r rhain i gleientiaid digartref sy'n symud ymlaen o lety hostel gwely a brechwast. Mae hyn wedi bod o fudd i ddynion a merched sengl. Rydym wedi cymeradwyo cynlluniau i ddatblygu fflatiau pobl hŷn ym Mhenarth.

Rydym wedi parhau i ddarparu gwasanaeth cyngori'r Siop Un Stop ac wedi dychwelyd i ddarpariaeth wyneb yn wyneb. Rydym yn darparu'r ystod lawn o gymorth, cyngor a chefnogaeth yn gysylltiedig â thai i breswylwyr mewn meysydd fel cymorth tenantiaeth, mynediad at gyflogaeth, iechyd meddwl, digartrefedd a chyllidebu. Mae hyn wedi helpu llawer o breswylwyr, gan gynnwys pobl anabl, i gadw eu tenantiaeth am gyfnod hirach.

Yn ystod 2021, cyflawnwyd ein haddewid i ailgartrefu teuluoedd o Syria drwy gynllun UKRS, ac rydym wedi gwneud addewid pellach i gefnogi dau deulu o Affganaid y mae'r argyfwng presennol yn Affganistan yn effeithio arnynt.

## **Amcan Cydraddoldeb Strategol Naw**

### **Gweithio mewn partneriaeth i ystyried materion sy'n ymwneud â hygyrchedd trafndiaeth, yn enwedig ar gyfer pobl anabl a phobl hŷn**

Mae arolwg 2022 gan Fforwm 50+ y Fro yn datgelu mai trafndiaeth yw'r prif bwnc, ar ôl iechyd, y mae aelodau am dderbyn gwybodaeth amdano neu fynd i gyfarfodydd i'w drafod, ac mae hynny'n dangos pa mor bwysig yw trafndiaeth i bobl hŷn. Roedd bron i chwarter yr ymatebwyr yn cytuno bod trafndiaeth gyhoeddus yn y Fro yn ddibynadwy, yn ddiogel, yn hygyrch ac wedi'i chysylltu'n dda.

Rydym wedi sicrhau cyllid i sicrhau dyfodol trafndiaeth gymunedol Greenlinks ymhellach mewn ardaloedd gwledig a threfol. Mae hyn yn cynnwys bysiau hygyrch, helpu preswylwyr heb drafndiaeth i gyrchu gwasanaethau a galluogi rhyngweithio

cymdeithasol. Rydym hefyd yn darparu bws i Fudiad Gwirfoddol Dinas Powys, gwasanaeth cymorth cymunedol ar lawr gwlad.

Ar ôl colli blwyddyn oherwydd cyfyngiadau covid, cynhaliwyd arolwg Bodlonrwydd Cwsmeriaid Ynys y Barri yn 2021. O'r arolwg hwn, dywedodd 26% o'r ymatebwyr fod parcio yn 'wael' neu'n 'wael iawn', dywedodd 12% fod mynediad ffyrdd yn 'wael' neu'n 'wael iawn', ac roedd 19% o'r farn fod trafndiaeth gyhoeddus yn 'wael' neu'n 'wael iawn'. Roedd dros 30% o ymatebwyr dros 55, sy'n amlygu'r ffaith bod trafndiaeth a hygyrchedd i gyfleusterau lleol yn bwysig, ac yn bethau y mae angen eu hystyried.

Rydym yn darparu parcio am ddim i bobl anabl â bathodyn glas. Rydym hefyd wedi gosod croesfannau cyffyrddol wrth ymyl safleoedd bws i helpu rhai ag anawsterau golwg, a chyrbiau uwch wrth safleoedd bws i helpu pobl llai abl i fynd ar fysiau ac oddi arnynt.

Buom yn cydweithio â Llywodraeth Cymru, yr Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol, a Phrifddinas-ranbarth Caerdydd i archwilio cyfleoedd am welliannau trafndiaeth ar draws Bro Morgannwg. Rydym wedi datblygu prosiectau yn Nociau'r Barri a Cogan, ac wedi gwneud addasiadau mynediad pellach yng ngorsafydd y Barri a Thregatwg fel bo modd cael mynediad heb risiau i blatfformau drwy ddefnyddio lifft.

Gwnaethom ymrwymiad pellach i helpu staff i ddewis dulliau teithio iachach a mwy cynaliadwy yn unol â'n Siarter Teithio Iach. I nodi Diwrnod Teithio Iach Cymru ym mis Medi, lanswyd rhaglen o ddigwyddiadau a gweithgareddau i'n staff, gan gynnwys y cynllun Beicio i'r Gwaith, sesiwn cynnal a chadw beiciau yn y Swyddfeydd Dinesig a chyfle i roi cynnig ar e-feic, gostyngiadau trên a bws, hyrwyddo mapiau cerdded a chyfle i roi cynnig ar e-feic am ddim drwy OVObike. Gwnaethom hefyd osod tri pheccyn trwsio beiciau yn yr Alpau, y Swyddfeydd Dinesig a Swyddfeydd y Dociau, gan alluogi'r staff i wneud gwaith trwsio brys ar eu beiciau. Rydym hefyd wedi hyrwyddo teithio llesol yn yr ysgolion, ac mae 18 o ysgolion bellach yn cymryd rhan ym mhrosiect WOW Living Streets, sef cerdded un diwrnod yr wythnos i'r ysgol.

## **Amcan Cydraddoldeb Strategol Deg**

**Datblygu a gweithredu cynlluniau drwy gydol oes y cynllun hwn i hyrwyddo ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig a'n treftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys hygyrchedd, i grwpiau gwarchodedig.**

Mae'r Gronfa Grant Cymunedau Cryf yn helpu i rymuso sefydliadau ar draws y Fro i gymryd yr awenau wrth nodi, datblygu a chyflawni prosiectau sy'n gwasanaethu eu cymunedau. Rhaid i bob prosiect ddangos sut y bydd o fudd i grwpiau â nodweddion gwarchodedig a rhoi ystyriaeth i anfantais economaidd-gymdeithasol, i ddarparu amgylchedd mwy cynhwysol y gall amrywiaeth ehangach o bobl ei fwynhau. Mae sawl prosiect o fudd i bobl a chanddynt fwy nag un nodwedd warchodedig. Mae hi hefyd yn bwysig i sefydliadau sy'n gwneud cais i'r gronfa gael polisi cydraddoldeb priodol i sicrhau eu bod yn gymwys i gael cymorth.

Dros y cyfnod hwn cafwyd ceisiadau gan amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys canolfannau cymuned, grwpiau cerddorol a chelfyddydol a chlybiau chwaraeon. Mae'r ystod o brosiectau'n dangos bod y gronfa'n helpu i wella ymgysylltiad â grwpiau gwarchodedig, gan weithio mewn partneriaeth i ystyried anghenion hygyrchedd, cynhwysiant cymdeithasol, a hyrwyddo'r amgylchedd naturiol ac adeiledig a threftadaeth ddiwylliannol.

Mae arolwg Bodlonrwydd Cwsmeriaid Ynys y Barri yn ein galluogi i gael adborth gan dwristiaid ac ymwelwyr i sicrhau bod anghenion pob cymuned yn cael eu bodloni. Os bydd unrhyw grŵp neilltuol yn arddangos newid mewn tueddiadau neu ymateb neilltuol i agweddau penodol, gallwn bennu ac ystyried camau priodol.

Bydd y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn sail ar gyfer cynllunio a datblygu yn y Fro am y pymtheng mlynedd nesaf. Cynhaliom ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Ionawr 2022 i gael sylwadau rhanddeiliaid. Buom yn monitro gwybodaeth am gydraddoldeb drwy'r ffurflen ymgynghori ar-lein, sydd wedi helpu i greu darlun cliriach o'r ystod o bobl sy'n ymgysylltu, a nodi grwpiau y gellid bod angen eu targedu er mwyn creu mwy o amrywiaeth ac ehangu cwmpas ymgysylltu cyhoeddus.

Daeth cyllid Cymunedau Gwledig Creadigol i ben ar 31 Rhagfyr 2021. Roedd rhai prosiectau blaenorol yn dal yn fyw o fis Mawrth i fis Rhagfyr 2021, ond ni roddwyd unrhyw gyllid newydd gennym yn ystod y cyfnod hwn. Roedd yn rhaid i brosiectau a oedd yn dal yn weithredol ar y pryd ddangos bod y prosiect yn mynd i'r afael ag un neu fwy o'r themâu hyn: Cyfle Cyfartal gan gynnwys y Gymraeg; Datblygu Cynaliadwy; a Thlodi ac Allgáu Cymdeithasol. Ers i'r cynllun Cymunedau Gwledig Creadigol ddod i ben, mae'r tîm grantiau a chyllido o fewn yr Adran Adfywio a Chynllunio wedi bod wrthi'n sefydlu tîm newydd i oruchwyllo swyddogaethau tebyg newydd. Ariennir y cynlluniau newydd gan y llywodraeth ganolog ac mae ganddynt feini prawf manwl ynghylch nodweddion i'w dal, felly dim ond lle i ddylanwadu ar yr agwedd cydraddoldeb wrth ddylunio prosiectau newydd fydd gan y 'Cymunedau Creadigol' newydd.

Rydym wedi helpu cymunedau ar stad St Luc a St Paul ym Mhenarth i wneud yr ardal yn lanach, yn wyrddach ac yn iachach yn rhan o'r prosiect 'Llechen Lân'. Mae'r gwaith hwn wedi bod o gymorth i ddatblygu'r pod bwyd, y ganolfan wybodaeth, y man chwarae a'r ardd gymunedol. Rydym wedi plannu rhandiroedd a gerddi cymunedol tebyg yng Nghanolfan Ddysgu Palmerston, gan greu cyfleoedd hygyrch newydd i wirfoddolwyr a dysgwyr.

Gwnaethom gynnwys preswylwyr mewn prosiectau i wella'r amgylchedd lleol, gan gynnwys ardal chwarae St David's Crescent, pafiliwn Belle Vue a chynllun celf gyhoeddus Cysgodfan Hanesyddol Penarth.

## **Materion eraill sy'n berthnasol i'r ddyletswydd gyffredinol a'r dyletswyddau penodol**

Fe welwch yn Atodiad 4 bod gwasanaethau wedi casglu data a hyrwyddo cydraddoldeb mewn sawl ffordd.

Yn ogystal â hyn, rydym yn adrodd ar faterion eraill sy'n ein helpu i hyrwyddo cydraddoldeb isod.

### **Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

Rydym wedi cael system ar gyfer asesu effaith ein gwaith ar grwpiau gwarchoddedig am sawl blwyddyn. Rydym yn ei hadolygu ac yn ei gwella o bryd i'w gilydd. Rydym yn cyhoeddi canlyniadau ein hasesiadau ar ein gwefan.

Ym mis Ionawr 2017, cyflwynom broses newydd ar gyfer cynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb. Ceir dolenni i ganllawiau, ymchwil a data. Mae'n caniatáu i swyddogion ddechrau'r broses ac yna mae'n rhaid iddynt gysylltu â'r Tîm Cydraddoldeb am gyngor. Gobeithiwn y bydd hyn yn gwella ansawdd yr asesiadau.

Rydym yn parhau i gefnogi rheolwyr i feddwl am eu gwaith yn y ffordd hon. Rydym yn cynnig hyfforddiant ar sut i gynnal asesiadau. Mae modiwl e-ddysgu i bobl ddysgu ar-lein sut i'w wneud. Gofynnwn iddynt ddangos eu hystyriaethau ar ffurf cofnod ffurfiol y gallwn ei gyhoeddi.

Mae'n bwysig inni ystyried sut y gallai newidiadau cyllidebol a mwy o bwysau ar gyllidebau effeithio ar ein gwasanaethau. Wrth i ni baratoi cyllidebau, rydym yn meddwl am sut y gallai newidiadau effeithio ar grwpiau gwarchoddedig. Rydym hefyd yn meddwl am sut y gallwn leihau effeithiau negyddol arnynt. Rydym yn cyhoeddi ar ein gwefan yr asesiad o ran sut mae'r gyllideb yn effeithio ar grwpiau gwarchoddedig.

Er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol a ddaeth i rym ar 31 Mawrth 2021, gwnaethom ddiwygio ein proses asesu effaith ar

gydraddoldeb a'n canllawiau i ystyried anfantais economaidd-gymdeithasol. Ar yr un pryd, roeddem hefyd yn adlewyrchu ystyriaethau'r Iaith Gymraeg yn y broses asesu.

## **Hyfforddiant Cydraddoldeb**

Rydym yn parhau i gynnig modiwlau e-ddysgu ar amrywiaeth o bynciau cydraddoldeb. Mae'r hyfforddiant hwn yn cwmpasu rhai meysydd gan gynnwys: cydraddoldeb ac amrywiaeth; gwahaniaethu; y Ddeddf Cydraddoldeb; sut i asesu effaith ein gwaith ar grwpiau gwarchoddedig (asesiadau effaith cydraddoldeb); ymwybyddiaeth o anabledd; a materion LHDTTC+ a thraws.

Gall staff edrych ar y modiwlau e-ddysgu o'u cyfrifiaduron a ddarperir gan y Cyngor. Gallant hefyd gael mynediad atynt o'u cartrefi drwy eu dyfeisiau personol. Gall hyn ei wneud yn haws i rai pobl wneud yr hyfforddiant. Gallwn fonitro pwy sydd wedi cwblhau'r math hwn o hyfforddiant.

## **Hyfforddiant Gwrth-Hiliaeth**

Fe wnaethom archwilio'r ffordd orau i ni ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth gwrth-hiliaeth gyda'r bwriad o dreialu opsiynau mewn ysgolion ac ar sail gorfforaethol yn 2022/2023.

## **Caffael**

Mae proses gaffael gorfforaethol y Cyngor yn sicrhau bod prosesau caffael yn ystyried Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth statudol. Mae hyn yn cynnwys diwydrwydd dyladwy drwy ddogfennau tendro. Mae Caffael Corfforaethol yn cynllunio i gynnal adolygiad o'r Polisi a'r Strategaeth Gaffael.

Mae gan y cam dethol o broses gaffael y Cyngor saith o gwestiynau wedi'u sgorio a all ddod yn fater llwyddo neu fethu gorfodol os oes angen. Y cwestiwn cyntaf yw:

"Fel cyflogwr, a oes gennych bolisi a darpariaethau ar waith i sicrhau bod eich sefydliad a'ch staff yn cydymffurfio â'ch rhwymedigaethau statudol o dan Ddeddf 25 Cydraddoldeb 2010, ac yn unol â hynny, ai eich arfer yw peidio â gwahaniaethu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar sail oedran, anabledd, hunaniaeth o ran rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol mewn perthynas â phenderfyniadau i recriwtio, dethol, talu, hyfforddi, trosglwyddo a hyrwyddo cyflogeion? Oes / Nac Oes\*\*"

Gall cam dyfarnu'r broses gaffael hefyd gynnwys gofynion cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer gwerthuso.

Rydym yn derbyn holl ddiweddariadau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ac yn rhan o Rwydwaith Penaethiaid Caffael Awdurdodau Lleol Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno'r offeryn cylch oes caffael newydd; Themâu, Canlyniadau a Mesurau Cenedlaethol i Gymru, gan gynnig cyfleoedd pellach i gyflawni'n gysylltiedig â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Bydd gwaith i ddiwygio'r Strategaeth Gaffael yn cael ei gyflawni yn y flwyddyn sydd i ddod.

## **Cynllun Hyderus o ran Anabledd**

Rydym yn falch o fod yn aelod o'r cynllun hwn. Mae'n cydnabod cyflogwyr sy'n helpu ymgeiswyr anabl i mewn i waith ac sy'n cefnogi cyflogeion pe baen nhw'n dioddef iechyd gwael yn ystod eu bywyd gwaith.

Dan y cynllun, rydym yn helpu pobl ag anableddau mewn sawl ffordd.

## **Cyfweliadau Hygyrch**

Rydym yn cael gwared ar rwystrau drwy gynnig pethau fel: parcio, arwyddwyr; Braille; mynediad i gadeiriau olwyn; system ddolen; neu ddehonglwr.

## **Ystyriaeth o flaen llaw**

Rydym yn gwarantu cyfweiliad I bobl ag anableddau ar yr amod eu bod yn bodloni gofynion hanfodol y fanyleb person ar gyfer y swydd.

## **Lleoliad cyfweiliad**

Rydym yn gallu trefnu ymweliad i leoliad y cyfweiliad cyn y cyfweiliad. Yna gallwn wneud addasiadau cyn y cyfweiliad os bydd pobl angen hynny

## **Datblygu galluoedd**

Rydym yn sicrhau bod cyfle i bobl ddatblygu a defnyddio eu galluoedd. Rydym yn gwneud hyn trwy ein system Adolygiad Datblygiad Personol #maeamdanafi

## **Cefnogi cyflogeion**

Rydym yn cefnogi cyflogeion i aros mewn cyflogaeth pe baent yn cael anabledd. Rydym yn cynnig gwasanaeth iechyd galwedigaethol a gwasanaeth cwnsela.

## **Codi ymwybyddiaeth**

Rydym yn trefnu i helpu staff i wybod mwy am anabledd. Rydym hefyd yn hysbysebu ein hymrwymiad ar ein Staffnet ac ar bosteri yn yr adeilad.

## **Adolygu'r cynllun**

Rydym yn gwirio'n rheolaidd sut mae'r cynllun yn cael ei redeg ac yn cynllunio gwelliannau. Rydym wedi gallu treialu cynllun profiad swydd ac wedi cynnig lleoliadau i nifer o ymgeiswyr gwaith.



## **Pencampwr Amrywiaeth Stonewall**

Parhaom i fod yn aelod o raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall. Rydym wedi datblygu cynllun gweithredu i wella'r gweithle i bobl lesbaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol. Mae hyn yn ein helpu i sicrhau ein bod ni'n trin pobl yn deg pan fyddant yn gyflogeion neu'n ymgeisio am swyddi.

Mae ein gwaith wedi cynnwys cefnogi rhwydwaith LHDTTC+ a chynghreiriaid, a ail-lansiwyd ym mis Ionawr 2019 o dan yr enw 'GLAM'. Mae gennym hefyd Hyrwyddwyr LHDTTC+ ar lefel yr Aelodau ac uwch reolwyr.

Rydym yn cymryd rhan ym mynegai Stonewall ar gyfer Cydraddoldeb yn y Gwaith. Mae'r Fynegai yn creu fframwaith i wella cynhwysiant pobl lesbaidd, hoyw, deurywiol a thraws yn y gwaith.

Yn rhan o'n gwaith ar gyfer y Fynegai Cydraddoldeb yn y Gwaith, a chyda chefnogaeth Stonewall, rydym wedi drafftio Polisi Trawsnewid yn y Gwaith a dogfen cwestiynau ac atebion traws.

Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi parhau i wella ei safle yn y Fynegai Cydraddoldeb yn y Gwaith. Mae hyn yn gyflawniad arbennig ac ystyried y cynnydd sylweddol yn nifer y sefydliadau sy'n cymryd rhan. Dyfarnwyd gwobr arian i Gyngor Bro Morgannwg ar gyfer 2021/22 a'i osod yn safle 190 o blith 403 o sefydliadau.

## **Rhwydweithiau Staff**

Mae ein rhwydweithiau staff yn cydweithio â llawer o adrannau ac aelodau staff y Cyngor, yn ogystal â rhoi cymorth i weithwyr y Cyngor. Maent hefyd yn cyfrannu at yr wybodaeth a gyflwynir gan y Cyngor i Fynegai Cydraddoldeb yn y Gwaith Stonewall.

### **GLAM**

Croesawodd y rhwydwaith staff LHDTTC+, GLAM, gadeirydd newydd yn 2021 a chyflwyno cyfansoddiad, cylch gorchwyl a phwyllgor newydd. Mae'r rhwydwaith yn

croesawu aelodau LHDTTC+ o bob rhan o'r Cyngor, yn ogystal â chynghreiriaid. Ceir tua 40 o aelodau, sy'n cynnwys aelodau staff, arweinwyr lefel uwch a chynghorwyr. Mae cynlluniau ar waith i ymdrin â'r aelodaeth ac ymgysylltu, a hefyd i annog cyfranogiad mewn digwyddiadau Pride lleol. Mae GLAM hefyd yn cefnogi sesiynau hyfforddi rheolwyr ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ogystal â hyrwyddo rhagenwau mewn llofnodion e-bost. Mae'n gweithio gyda'r rhwydwaith Amrywiol i sicrhau bod Bro Morgannwg yn lle cadarnhaol, cynhwysol ac anogol i breswylwyr a gweithwyr.

### **Diverse**

Sefydlwyd y rhwydwaith staff Diverse yn ystod 2020 ac fe'i lanswyd yn ffurfiol yn 2021. Ei nod yw codi ymwybyddiaeth, creu amgylchedd cymdeithasol a chefnogol, a chael effaith gadarnhaol ar gydweithwyr o leiafrifoedd ethnig yn y gweithle. Mae croeso i holl weithwyr ac aelodau'r Cyngor ymuno. Mae rhwydwaith Diverse yn gweithio gyda gwahanol adrannau o'r Cyngor yn gysylltiedig â gweithredu'r cynllun cydraddoldeb hiliol, ac i wella cyflogaeth a darpariaeth gwasanaeth i weithwyr a chymunedau lleiafrifol ethnig. Mae rhwydwaith Diverse hefyd yn cefnogi hyfforddiant gorfodol i'r staff ar ymwybyddiaeth o hil a rhagfarn ddjarwybod, a hefyd yn cefnogi gweithdai gwrth-hiliaeth mewn ysgolion.

### **Materion Cydraddoldeb Hiliol – Wythnos Ymwybyddiaeth Hil**

Gwnaethom gymryd rhan yn Wythnos Ymwybyddiaeth Hil Race Equality Matters am y tro cyntaf yn 2022. Daethom yn sefydliad sy'n gosod esiampl wrth ymrwymo'n fuan i weithredu camau penodol, gan gynnwys cynnal Cyfarfod Lle Diogel ym mis Chwefror 2022.

### **Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig**

Tîm aml-asiantaeth o staff awdurdod lleol ac iechyd yw'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig sy'n gwasanaethu ardal Caerdydd a Bro Morgannwg. Rydym yn rhoi diagnosis a chefnogaeth i oedolion ag awtistiaeth. Rydym yn darparu gwasanaethau ataliol a chymorth sy'n bodloni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2010.

Er mwyn annog pobl â nodweddion gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu weithgareddau eraill lle bo'u cyfranogiad yn anghyfartal o isel, rydym yn casglu gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael. Cynigir y gwasanaethau hyn gan awdurdodau lleol, darparwyr gwasanaethau allanol, a sefydliadau trydydd sector. Byddwn wedyn yn helpu cleientiaid i gyrchu'r gwasanaethau hyn ac yn darparu mwy o gymorth wedi'i dargedu os oes rhwystrau.

Mae'r gwaith yma'n helpu cleientiaid i fanteisio ar gymorth neu gyfleoedd sydd ar gael yn y gymuned ehangach. Heb y cymorth lefel isel hwn, efallai na fyddent wedi cael gwybod am y cyfleoedd am gymorth, neu deimlo eu bod yn gallu manteisio ar y cyfleoedd hynny.

Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn darparu ymyriadau byrdymor wedi'u targedu i annog pobl i fod yn annibynnol, yn hytrach na dibynnu ar y tîm. Mae cymorth penodol fel hyn ar gyfer awtistiaeth yn hanfodol wrth gymryd camau i fodloni anghenion pob o grwpiau gwarchoddedig, oherwydd gallai'r anghenion hyn fod yn wahanol i anghenion pobl eraill.

Wrth inni symud allan o gyfnod Covid, mae apwyntiadau wyneb yn wyneb wedi cael eu hailgyflwyno'n raddol. Fodd bynnag, o ddysgu o'n profiadau dros y flwyddyn ddiwethaf, mae cymorth yn dal i fod ar gael ar-lein drwy Hyb Cyngori Rhithiol. Mae hyn yn cynnig mynediad i bobl na allant fod yn bresennol yn gorfforol.

Yn ogystal â chyfeirio a chefnogaeth i fanteisio ar gyfleoedd eraill, rydym hefyd yn cynnal amrywiaeth o grwpiau. Mae'r rhain yn helpu i gael gwared ag anfanteision a brofir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig, neu leihau'r anfanteision hynny hyd yr eithaf.

- cymryd camau i fodloni anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig lle bo'r anghenion hynny'n wahanol i anghenion pobl eraill; ac

- annog pobl â nodweddion gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle bo'u cyfranogiad yn anghyfartal o isel.

Yn ystod Covid, buom yn gweithio i drosi'r grwpiau yn fersiynau rhithiol ar-lein. Sylweddolwn fod cynnig fersiynau rhithiol wedi ehangu ein cyrhaeddiad.

Ar hyn o bryd, y grwpiau ar ffurf rithwir yw:

- Grŵp ôl-ddiagnostig lle mae oedolion yn dysgu am y cyflwr y maent wedi cael diagnosis ohono a sut y gallai effeithio ar eu bywydau.
- Gweithdy cyfathrebu sgiliau cymdeithasol.
- Meddwlgarwch
- Bwyta'n iach a deiet cytbwys.
- Cymryd camau i fodloni anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig lle bo'r anghenion hynny'n wahanol i anghenion pobl eraill; ac
- Annog pobl â nodweddion gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle bo'u cyfranogiad yn anghyfartal o isel.

Yn ystod Covid, buom yn gweithio i drosi'r grwpiau yn fersiynau rhithiol ar-lein. Sylweddolwn fod cynnig fersiynau rhithiol wedi ehangu ein cyrhaeddiad.

## **Fforwm Strategaeth 50+ y Fro**

Mae'r Fforwm yn ymgychu dros anghenion pobl 50+ ym Mro Morgannwg. Mae ei haelodau mewn cyswllt â nifer o weithgorau lleol a chenedlaethol.

Mae cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol ar agor i bob aelod o'r Fforwm eu mynychu. Gall aelodau elwa o amrywiaeth o gyflwyniadau diddorol ar y gwasanaethau sydd ar gael. Mae gan aelodau hefyd gael y cyfle i fynegi eu barn ar ddatblygiadau a chynllunio gwasanaethau. Eleni, mae cyfarfodydd Gweithredol wedi parhau i gael eu cynnal bob mis gyda chyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol amgen.

Drwy gydol 2021/22, mae'r Fforwm wedi parhau i fod yn rhagweithiol o ran sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed mewn ymgynghoriadau a gwneud penderfyniadau. Codwyd pryderon a materion gennym yn uniongyrchol â siaradwyr, gan gynnwys y Comisiynydd Pobl Hŷn a'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol.

Parhawyd i gadw cyswllt â'r aelodau ar-lein a thrwy lythyrau i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r gwasanaethau cymorth allweddol a oedd ar gael, gan fod y pandemig wedi amharu ar fynediad i wybodaeth. Anfonir bwletinau misol gan gynnwys diweddariadau a gwybodaeth leol at bob aelod a'u dosbarthu i'r 50+ ehangach drwy rwydweithiau a chysylltiadau lleol drwy wasanaethau eraill y Cyngor, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, GGM a Thai Newydd. Mae'r bwletin e misol yn ychwanegol at y cylchlythyrau wythnosol y gallwch gofrestru ar [Wefan y Fforwm](#) sy'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd.

Yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth eleni, daethom ynghyd â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) y Fro i gynnal arolwg ar y cyd. Gwnaed hyn er mwyn canfod beth fyddai pobl hŷn yn hoffi gweld y Fforwm yn ei wneud o hyn allan, i'w helpu i dyfu a datblygu, ac i weld beth yw barn pobl hŷn ynghylch agweddau ar y Fro sy'n gysylltiedig â'r 8 ardal gymunedol oed gyfeillgar.

Mae 8 maes sy'n nodweddion hanfodol mewn cymunedau sy'n ystyriol o oedran, sef:

- Mannau agored ac adeiladau cyhoeddus
- Trafnidiaeth
- Tai
- Cyfranogiad cymdeithasol
- Parch a chynhwysiant cymdeithasol
- Cyfranogiad dinesig a chyflogaeth

- Cyfathrebu a gwybodaeth
- Cymorth cymunedol a gwasanaethau iechyd

Byddwn yn ystyried y canfyddiadau wrth bennu strwythur y Fforwm i'r dyfodol, a hefyd ar gyfer y cais Bro Oed Gyfeillgar. Mae'r cais hwn yn cael ei ddatblygu gan BGC y Fro er mwyn helpu i wneud Bro Morgannwg yn lle mwy oed gyfeillgar, lle gall pobl fyw'n hapus ac yn iach, yn enwedig wrth inni dyfu'n hŷn. Ceir rhagor o wybodaeth am y gwaith i fod yn Fro Oed gyfeillgar [yma](#).

Gallwch ymuno â'r Fforwm os ydych dros bum deg ac yn byw, gweithio neu'n gwirfoddoli ym Mro Morgannwg.

## **Ymwybyddiaeth o'r Menopos**

Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd cyfran fawr a chynyddol o'i weithwyr yn gweithio drwy'r menopos a thu hwnt. Er mwyn cynyddu dealltwriaeth o'r menopos a galluogi pawb i siarad am hynny'n agored a heb unrhyw embaras, aeth y tîm Iechyd Galwedigaethol ati i gynllunio a pharatoi sesiynau Ymwybyddiaeth o'r Menopos i staff drwy gydol 2022. Drwy godi ymwybyddiaeth a chynnig cefnogaeth ac agwedd dderbyngar, sylweddolwn y gall y sesiynau gyfrannu at greu gweithlu sy'n fwy cynhwysol.

## **Asesiad Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg**

Mae'r Asesiad Llesiant yn ddyletswydd statudol a osodir ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. 'Golwg ar Fro Morgannwg: Asesiad o Lesiant y Presennol a'r Dyfodol' yw'r ail asesiad a gynhaliwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg. Cynhelir yr Asesiad Llesiant bob pum mlynedd, a rhaid iddo ystyried sefyllfa ardal gyfan, a gwahanol ardaloedd cymunedol o ran llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Yr ardaloedd cymunedol a ddefnyddir yn asesiad llesiant 2022 yw'r Barri, Dwyrain y Fro a Gorllewin y Fro. Mae'n rhaid i'r BGC gyhoeddi Cynllun Llesiant erbyn mis Mai 2023, ac mae'n rhaid i'r cynllun hwnnw fod yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Asesiad Llesiant. Esbonnir mewn canllawiau statudol y

broses y mae'n rhaid i BGCau ei dilyn i lunio Asesiad o'r sefyllfa o ran Llesiant yn ardal y BGC. Mae'n rhaid cyhoeddi'r Asesiad ddeuddeg mis cyn cyhoeddi Cynllun Llesiant y BGC, sy'n golygu cyn mis Mai 2022.

Mae'r Asesiad Llesiant wedi defnyddio ystod o ddata, ymchwil a thystiolaeth lleol a chenedlaethol, ochr yn ochr â chanfyddiadau arolwg ymgysylltu 'Amser Siarad' i ddatblygu dadansoddiad o'r profiadau o lesiant ym mhob rhan o Fro Morgannwg. Datblygwyd catalog data ar y cyd â phartneriaid y BGC i sicrhau bod yr wybodaeth a fyddai'n cael ei hystyried drwy'r Asesiad yn adlewyrchu'r gwahanol elfennau o lesiant. Mae'r set ddata yn cynnwys y dangosyddion Llesiant cenedlaethol sy'n cydfynd â'r Ddeddf. Cyflwynir data ar raddfa Bro Morgannwg ac ar raddfa gymunedol lle bo hynny'n briodol, a lle bo'r data ar gael.

I lawer, mae Llesiant ym Mro Morgannwg yn dda. Yn erbyn nifer o ddangosyddion allweddol, ac o'u cymharu ag ardaloedd eraill yng Nghymru, gallwn weld bod gennym ddeilliannau addysgol da, enillion sy'n uwch na chyfartaledd cenedlaethol Cymru, bod pobl yn byw mewn iechyd da, yn profi llai o drosedd ac anhrefn ac yn fodlon â'r ardal lle maent yn byw, a bod ganddynt fynediad at fannau gwyrdd a glas o ansawdd uchel. Serch hynny, nid yw'r profiad hwn yn gyson. Mae profiadau o galedi ariannol, iechyd gwael, trosedd ac anhrefn a chysylltiad anghyfartal â risg amgylcheddol yn parhau i amharu ar lesiant rhai pobl. Er bod pandemig y coronafeirws wedi effeithio ar fywydau pawb ym Mro Morgannwg, dengys ymchwil, data a'r profiadau a rannwyd gan bobl y bu'r effaith ar rai bobl, grwpiau a chymunedau neilltuol yn anghyfartal. Y mae wedi rhoi mwy o bwysau ar lesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol a meddyliol a chorfforol preswylwyr a allai fod wedi dweud bod eu Llesiant yn dda cyn y pandemig; ond bu'r baich yn arbennig o drwm i'r rhai a oedd eisoes yn profi anawsterau oherwydd diffyg Llesiant.

Er ei bod hi'n ymddangos bod y gwaethaf o'r pandemig wedi mynd heibio, mae'n glir y bydd yn parhau i gael effaith hirdymor ar sawl agwedd o'n bywydau. Efallai y bydd rhai newidiadau yn ein helpu i wynebu heriau'r dyfodol, fel yr angen i leihau allyriadau; mae newidiadau eraill wedi amlygu eto pa mor anghyfartal yw ein profiadau o lesiant. Bydd nifer o heriau a chyfleoedd yn llywio dyfodol ein bywydau ym Mro Morgannwg, ac mae'n fwy na thebyg mai'r argyfwng hinsawdd a natur fydd

yn cael yr effaith fwyaf arnom. Mae'n debygol o lywio agweddau allweddol ar ein llesiant yn y dyfodol - nid yn unig y ffordd rydym yn rhyngweithio â'r amgylchedd naturiol, ond y modd y mae'r economi'n datblygu a'n hystyriaethau ynghylch darparu iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n hollbwysig bod y newidiadau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur yn cael cyflwyno mewn modd sy'n mynd i'r afael â'r anghyfartalwch o ran llesiant, ac sy'n gwella cyfleoedd a llesiant yn gyffredinol.

Mae'r Asesiad Llesiant yn dod â data a thystiolaeth ynghyd o nifer o wahanol ffynonellau. Mae'r data hynny a'r dystiolaeth honno'n creu sail dda sy'n galluogi cydweithwyr i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol.

Bydd yr Asesiad Llesiant yn goleuo'r gwaith i ddatblygu Cynllun Llesiant y BGC. Bydd y Cynllun yn nodi'r camau y bydd y BGC yn gweithio drwyddynt i gynnal a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol ym Mro Morgannwg dros y pum mlynedd nesaf. Bydd hyn yn cynnwys gwella canlyniadau ar gyfer grwpiau gwarchoddedig.

Mae'r data, y dystiolaeth a'r dadansoddiad a geir yn yr Asesiad Llesiant yn tanategu pwysigrwydd yr amcanion cydraddoldeb yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024. Mae llawer o'r materion a amlygir drwy'r asesiad yn cyd-fynd â'r amcanion cydraddoldeb, felly bydd gwaith i fynd i'r afael â'r materion a nodir yn yr asesiad drwy'r Cynllun Llesiant hefyd yn cyfrannu at amcanion cydraddoldeb y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Mae'r Asesiad Llesiant yn broses barhaus. Bydd gwaith yn parhau i wella a datblygu sylfaen dystiolaeth y BGC. Bydd hyn yn cynnwys parhau i wella ein sylfaen wybodaeth drwy ddata a thystiolaeth newydd, datblygu ein data a'n hymchwil presennol ymhellach a gwella ein canfyddiadau ymgysylltu drwy drefnu mwy o gyfleoedd i ryngweithio wyneb yn wyneb â phreswylwyr a rhanddeiliaid eraill.

## **Gwasanaethau Hamdden**



Profodd y Tîm Byw'n Iach a Pherfformiad, fel y rhan fwyaf o adrannau'r Cyngor, flwyddyn wahanol iawn oherwydd pandemig Covid-19 na'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol. Fodd bynnag, roedd hyn hefyd yn gyfle i gynnal gweithgareddau newydd gan gynnwys 'Haf o Hwyl' a 'Gaeaf Llawn Lles'. Un o amcanion allweddol y gweithgareddau hyn oedd sicrhau darpariaeth gynhwysol.

Gwnaethom addasu gwasanaethau'n gyflym i gyd-fynd â'r newidiadau yn y byd, a sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni yn y ffyrdd gorau posib, er gwaethaf yr heriau'n gysylltiedig â hynny. Dyma fentrau a dargedodd gymunedau a phreswylwyr sy'n cael llai o gyfleoedd:

- Haf o Hwyl

Gwnaethom ddarparu gweithgareddau rhoi cynnig arni gyda phartneriaid lleol yn rhan o Haf o Hwyl Llywodraeth Cymru. Targedwyd y rhai lleiaf heini (dim nod 10% o gyfranogwyr a oedd yn bodloni canllawiau'r llywodraeth ar gyfer lefelau gweithgarwch) a'r rhai nad oeddent yn gallu fforddio darpariaeth gymunedol yr haf. Cafodd y sesiynau effaith ar 699 o blant a phobl ifanc, dros 134 o sesiynau. O ganlyniad i hynny, roedd 87% o gyfranogwyr yn teimlo bod ganddynt fwy o gymhelliant a hyder i gymryd rhan mewn mwy o weithgareddau, ac roedd 60% am ymuno â chlybiau lleol i barhau â'r gweithgaredd.

- Gaeaf Llawn Lles

Yn rhan o brosiect gan Lywodraeth Cymru i ailennyn diddordeb pobl ifanc ar ôl Covid, buom yn gweithio gyda 44 o wahanol sefydliadau i ddarparu chwaraeon a gweithgareddau corfforol, gan effeithio ar o leiaf 4630 o blant a phobl ifanc o oedran cyn-ysgol hyd at 24 oed.

- Y Dechrau Gorau mewn Bywyd

Ffurfiwyd hwn o brosiectau â phartneriaid, gan gynnwys lechyd Cyhoeddus Cymru, darpariaethau cyn-ysgol a Blynyddoedd Cynnar Cymru i gynnal sesiynau gweithgaredd i'r teulu ar gyfer y plant lleiaf heini, er mwyn annog gweithgarwch yn y blynyddoedd cynnar, datblygu adnoddau i deuluoedd, a

rhoi bagiau cyfarpar ar fenthyg i deuluoedd yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, i'w hannog i wneud mwy o ymarfer corff.

- Cadw'n Egnïol Gartref  
Prosiect bwyd a gweithgareddau corfforol a gynhelir mewn partneriaeth â phrosiect HAPI Tai Newydd yw hwn. Anogodd 39 o deuluoedd i wneud mwy o ymarfer corff a chynnig mynediad at fwyd. Dywedodd 95% o'r cyfranogwyr fod eu hiechyd a'u lles wedi gwella, gyda 75% yn adrodd am lefelau gweithgaredd uwch ar ôl chwe mis.
- Addysg Egnïol y Tu Hwnt i'r Diwrnod Ysgol  
Dyma brosiect peilot llwyddiannus gan Insport Cymru a Llywodraeth Cymru i ymestyn gweithgareddau corfforol y tu hwnt i'r diwrnod ysgol. O ganlyniad i hyn, cynhaliwyd o leiaf 115 o sesiynau i fwy na 150 o ddisgyblion yn yr ysgol uwchradd, gan gynnwys nifer fawr o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau am ddim.

Symudwyd y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff ar-lein yn ystod Covid, ond mae'r gwasanaeth bron yn cael ei gynnal yn arferol bellach. Mae'n ddealladwy bod y galw am atgyfeiriadau wedi bod yn uchel, ac rydym yn gweithio'n galed i weld cynifer o gwsmeriaid ag sy'n bosibl.

Mae darpariaeth chwaraeon a chwarae cyffredinol wedi dychwelyd. Mae'r rhain yn aml yn cael eu targedu at grwpiau penodol sy'n aml yn gysylltiedig ag amcanion cydraddoldeb strategol y Cyngor.

- Rhedeg cymdeithasol  
Cafodd arweinwyr a hyfforddwyr rhedeg newydd eu cefnogi i greu mwy o gyfleoedd rhedeg cymdeithasol, ac mae hynny wedi arwain at ddau grŵp rhedeg newydd.
- Park Run

Darparwyd offer i Junior Park Run i'w helpu gyda datblygiadau ar ôl Covid.  
Darparwyd offer i helpu i sefydlu Cosmeston Park Run.

- **Pêl-rwyd Cerdded**

Cafodd pêl-rwyd cerdded ei ailsefydlu i ennyn diddordeb rhai sydd am symud mwy drwy gymryd rhan mewn gweithgaredd cymdeithasol llai heriol. Roedd 100% o'r rhai a gymerodd ran yn teimlo'n fwy hyderus i gymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol arall, ac roedd 100% yn teimlo mwy o gymhelliant ac yn iachach.

Buom hefyd yn gweithio gyda phartner darparu'r Ganolfan Hamdden, Legacy Leisure, i sicrhau bod Canolfannau Hamdden yn gallu dychwelyd i fodel gweithredu arferol yn gyflym ac effeithlon.

Mae mentrau a barhaodd drwy gydol y pandemig yn parhau i fod yn uchel eu blaenoriaeth, â'r galw amdanynt yn fwy na'r ddarpariaeth. Enghraifft o hyn yw cynlluniau chwarae i blant ag anableddau. Mae'r newidiadau a wnaed yn flaenorol i'r gwasanaeth, gan roi pwyslais mwy ar sicrhau lleoliadau ar draws Bro Morgannwg i liniaru anawsterau trafnidiaeth a phroblemau eraill, bellach yn golygu bod rhaglen fwy cytbwys o weithgareddau chwarae yn cael ei chynnig ar draws yr ardal, fel y cynlluniwyd.

### **Menywod a merched**

Roedd mynediad a chyfranogiad menywod a merched yn parhau i fod yn darged allweddol yn ystod cyfnodau clo. Mae gennym bryderon o hyd am y bwlch rhwng y rhywiau o ran lefel gweithgarwch corfforol. Gan adeiladu ar ymchwil flaenorol, yn benodol i Fro Morgannwg, mae gweithgareddau newydd wedi cael eu darparu i leihau'r bwlch mewn cyfranogiad. Dylai'r arolwg chwaraeon ysgol sydd ar y gweill ar hyn o bryd ddangos a yw'r mentrau hyn yn gweithio.

- Cynhaliwyd ymgynghoriad gennym â phreswylwyr benyw i ganfod yr hyn sy'n eu hysgogi i gymryd rhan mewn mwy o weithgareddau corfforol ac yn eu hatal rhag gwneud hynny. Mae hyn wedi arwain at sesiwn nofio newydd i fenywod

yn unig, yn ogystal â chynlluniau am ragor o weithgareddau dŵr a theithiau tywys.

- Rydym wedi gweithio gyda Hindu Cohesion Mandal i gynyddu lefelau gweithgarwch i fenywod a theuluoedd.
- Rydym wedi cynnal sesiynau gweithgaredd corfforol cymunedol i ferched yn unig gan dargedu merched sydd leiaf egniol. O ganlyniad i hyn, mae 100% yn teimlo'n iachach ac yn fwy hyderus ac wedi'u hysgogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau eraill.

### **Anabledd a chynhwysiant**

- Gwaith partneriaeth rhanbarthol i gynnal sesiynau gweithgaredd corfforol ar-lein yn ystod y cyfnodau clo
- 115 o ddisgyblion oed cynradd yn mynd i hyfforddiant Ymwybyddiaeth Cydchwarae Admiral, gan eu helpu i gefnogi eu cyfoedion anabl mewn gweithgareddau corfforol.
- Mae clybiau'r Fro wedi cael eu hannog i fod yn rhan o raglen Insport i ddatblygu cyfleoedd cynhwysol yn y gymuned.
- Mae tri o'n harweinwyr rhedeg wedi cael eu hyfforddi i helpu preswylwyr â nam ar y golwg i fanteisio ar gyfleoedd rhedeg.

### **Pobl hŷn – y Pás Aur**

Roedd hyn yn rhannol gysylltiedig â menter newydd a lanswyd yn sgil y pandemig, 'prosiect 60+', mewn partneriaeth â Thîm Byw'n Iach y Fro, Chwaraeon Cymru a Iechyd Cyhoeddus Cymru. Bu'r cam peilot ym mhrosiect Pás Aur y Barri yn eithriadol o lwyddiannus, a bydd y prosiect yn cael ei roi ar waith ledled Bro Morgannwg yn 2022. Mae'n cynnwys tri ar ddeg o wahanol weithgareddau sy'n anelu i gynyddu'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol ymhlith y grŵp oedran targed.

- Cymerodd 140 o breswylwyr 60+ oed y Barri ran yn rhaglen y Pás Aur.

- Cyrhaeddwyd yr holl dargedau allweddol i leihau'r amser a dreulir yn eistedd, a chynyddu'r amser yn cerdded, ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymedrol.
- Cyrhaeddwyd targedau llesiant gan fod cyfranogwyr yn cofnodi eu bod yn teimlo'n optimistig 'yn aml' yn hytrach na 'pheth o'r amser'.

## **Gwerthuso Swyddi**

Mae gennym gynllun gwerthuso swyddi ar waith. Mae'r cynllun hwn ar gyfer staff a delir dan y cytundeb cyfunol Statws Sengl. Mae'n sicrhau bod ffordd systematig o benderfynu ar gyflog a gradd ar gyfer swydd. Mae hyn yn arwain at dâl cyfartal o werth cyfartal. Mae canlyniadau gwerthusiad swydd wedi'u cysylltu â'n system gyflog a graddio. Sefydlwyd system gyflog a graddio ffurfiol ym mis Mawrth 2012 ar ôl cwblhau proses gwerthuso swyddi helaeth.

Mae wedi ein helpu i dalu pobl yn deg ac mewn ffordd gyson.

Mae ffactorau eraill sy'n effeithio ar dâl pobl megis y math o swyddi maen nhw'n dewis eu gwneud. Mae dynion a merched yn aml yn dewis gwneud swyddi y mae dynion a merched wedi eu gwneud yn draddodiadol. Gelwir hyn yn arwahanu galwedigaethol. Mae'n aml yn ffactor o ran y bwlch cyflog rhwng dynion a menywod – sef y bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

Fel rhan o'n Cynllun Gweithlu, rydym yn parhau i edrych am ffyrdd o leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Ers 2012, rydym yn asesu swyddi newydd a newidiol trwy ein system gwerthuso swyddi. Fel rhan o hyn, rydym yn ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad sydd angen ar bobl i wneud y swydd. Mae llawer o newidiadau fel hyn wrth i ni ad-drefnu ein hadrannau a meddwl am y ffordd orau o wneud ein gwaith. Mae defnyddio'r dull hwn yn cadw'r system gyflog a graddio'n deg a chyson.

## **Cynllun y Gweithlu**

Mae gennym gynllun gweithlu. Mae'r cynllun hwn yn sicrhau bod gennym:

- y bobl gywir;
- gyda'r sgiliau cywir;
- yn y lle cywir;
- ar yr adeg gywir.

Mae hyn yn ein helpu i barhau i ddarparu ein gwasanaethau ar adeg pan mae heriau ariannol mawr a galw cynyddol am ein gwasanaethau. Rydym yn bwriadu sicrhau bod ein gweithlu yn debyg i wneuthuriad y gymuned leol o ran y grwpiau gwarchoddedig. Rydym wrthi'n adolygu cynllun gweithlu'r Cyngor.

Rydym wedi rhoi mewn lle ffordd o gofnodi nodweddion gwarchoddedig ein staff. Mae hyn yn golygu ein bod yn gallu cymharu ein hystadegau gydag ystadegau lleol a chenedlaethol i weld pa gynnydd yr ydym yn ei wneud. Yna gallwn gynllunio sut i wneud gwelliannau.

Fel rhan o'r cynllun gweithlu, mae gennym strategaeth i edrych ar gynyddu amrywiaeth ein gweithwyr ar draws pob grŵp gwarchoddedig. Fel rhan o'r strategaeth, rydym yn adeiladu perthnasoedd ac yn datblygu chyfleoedd gyda sefydliadau addysgol lleol, gan gynnwys Prifysgol Caerdydd, Prifysgol De Cymru a Choleg Caerdydd a'r Fro. Rydym yn ymdrechu i gynnig yr ystod lawn o brentisiaethau sydd ar gael yng Nghymru.

## **Y Llyfr Diwilliant**

Yn ystod 2021, gwnaethom lansio ein Llyfr Diwilliant digidol. Mae'r Llyfr Diwilliant yn cynnwys ac yn adeiladu ar y Siarter Staff. Mae'n amlygu natur amrywiol ein sefydliad, gwaith eithriadol ein staff, ac yn ein harddangos yn cyflawni ein gwerthoedd drwy weithredu. Lluniwyd y llyfr gan y tîm Datblygu Sefydliadol a Dysgu sydd wedi bod yn gweithio gyda'r Hyrwyddwyr Ymgysylltu ac Arloesi a

chynrychiolwyr o bob rhan o'r Cyngor. Yn rhan o'r lansiad, cynhaliodd y Rheolwrgyfarwyddwr sesiwn holi ac ateb arbennig ym mis Medi 2021.

## **Gwybodaeth benodol ynghylch cyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth ar hyfforddiant a chyflog**

Rydym wedi bod yn casglu data cyflogaeth am nifer o flynyddoedd. Rydym wedi casglu gwybodaeth ar y nodweddion gwarchoddedig canlynol:

- rhyw;
- hil;
- anabledd; ac
- hoedran.

Rydym wedi parhau i ddatblygu systemau newydd. Bydd hyn yn gadael i ni adrodd ar fwy o nodweddion gwarchoddedig yn y dyfodol. Byddwn yn gallu casglu a chofnodi gwybodaeth ar:

- cyfeiriadedd rhywiol;
- ailbennu rhywedd;
- hunaniaeth rywiol;
- hunaniaeth genedlaethol;
- crefydd neu gred; a
- statws priodasol.

Roedden ni eisiau canolbwyntio ar gamau allweddol. I'n helpu ni, defnyddiom ganllawiau gan Lywodraeth Cymru. Enw'r canllaw yw 'Casglu data am gydraddoldebau - Safonau sydd wedi'u cysoni ac arferion gorau'.

Newidiom y ffurflen a ddefnyddiwn i gasglu gwybodaeth am bobl pan fônt yn ymgeisio am swyddi.

Rydym ni nawr yn gofyn am nodweddion gwarchoddedig ar y ffurflen. Gallwch weld y ffurflen yn Atodiad 3.

Fe wnaethon ni lunio arolwg staff, Fe wnaethom ddefnyddio hwn i ofyn i staff am eu nodweddion gwarchoddedig.

Fe wnaethon ni wella'r ffordd yr ydym yn cofnodi'r wybodaeth hon. Mae gwneud hyn yn helpu i wella'r hyn yr ydym yn ei wybod am y grwpiau gwarchoddedig o fewn ein gweithlu.

Rydym wedi edrych ar y wybodaeth a gasglwyd gennym. Gallwch chi weld yr hyn rydym ni wedi'i ganfod yn [Atodiad 5](#) yr adroddiad hwn. Dyma grynodedeb o'r penawdau fesul nodwedd warchoddedig. Mae'r ffigurau canlynol yn cyfeirio at staff corfforaethol, ac nid ydynt yn cynnwys staff a gyflogir mewn ysgolion.

## Oedran

- Rydym yn cyflogi mwy o bobl ond mae nifer y rhai 16 - 24 oed, 35 - 39 oed a 45 - 49 oed wedi gostwng ers y llynedd.
- Ystod oedran y rhan fwyaf o'r gweithwyr yw 55-59 oed.
- Cafwyd y ganran fwyaf o geisiadau gan bobl yn yr ystod oedran 25-29 oed (15.6%). Dyma'r ystod uchaf hefyd y llynedd (21.6%)
- Deuai'r gyfran fwyaf o bobl a dderbyniodd hyfforddiant o'r grŵp oedran 50-54 - 300 neu 17.1%. Mae hyn yr un peth â'r llynedd lle'r oedd cyfran fwyaf y bobl a oedd yn derbyn hyfforddiant yn y grŵp oedran 50-54, ar 202 neu 15.3%.
- Roedd y rhan fwyaf o'r bobl a adawodd rhwng 20 a 24 oed. Cynyddodd hyn o 14 i 48 o ran nifer ac o 6.6% i 16.1% o ran canran. Bu cynnydd yn nifer y bobl a adawodd ym mhob ystod oedran, ar wahân i'r grŵp oedran 50-54, a ostyngodd o 16 i 14.



- Bu gostyngiad bach yng nghyflog cyfartalog gweithwyr yng ngrŵp oedran 16-19, grŵp oedran 35-39, a grŵp oedran 60-64. Cynyddodd cyflog cyfartalog pobl yn yr ystodau oedran eraill.
- Pobl rhwng 40 a 44 oed oedd â'r cyflog cyfartalog uchaf.

## **Anabledd**

- Nid oedd gan 78.1% o'n staff anabledd. Dywedodd 2.5% fod ganddynt anabledd a oedd yn cyfyngu rhywfaint arnynt.
- Mae nifer y bobl a gyflogir a ddywedodd wrthym fod ganddynt anabledd a oedd yn cyfyngu llawer arnynt wedi cynyddu ers y flwyddyn flaenorol.
- Canran yr ymgeiswyr a ddywedodd nad oedd ganddynt anabledd oedd 78.3%, sy'n ostyngiad o 89.0% yn y flwyddyn gynt. Cynyddodd y ganran ag anabledd cyfyngus o 3.3% i 4.5%. Cynyddodd y ganran na wnaeth ymateb o 5.1% i 14.5%.
- Cafwyd cynnydd yng nghyflog cyfartalog y rhai ag anableddau, ag anableddau cyfyngus iawn, a heb anableddau o gwbl o'r flwyddyn gynt.
- Cyflog cyfartalog y rhai a ddywedodd fod ganddynt anabledd oedd £27,445 o gymharu â £26,954 i rai heb anabledd, £28,080 i rai ag anabledd a oedd yn cyfyngu rhywfaint arnynt, a £28,429 i rai ag anabledd a oedd yn cyfyngu llawer arnynt.
- Gostyngodd cyflog cyfartalog y rhai na chofnododd ymateb neu a oedd yn well ganddynt beidio dweud.

- Roedd gan 2.9% o'r bobl a fynychodd hyfforddiant anabledd a oedd yn cyfyngu arnynt i ryw raddau. Nid oedd gan 82.5% o'r bobl a gafodd hyfforddiant unrhyw anabledd. Mae'r canrannau hyn yn debyg i'r llynedd.
- Cynyddodd nifer yr ymadawyr a ddywedodd nad oedd ganddynt anabledd o 159 i 234 o gymharu â'r flwyddyn gynt, sef cynnydd canrannol o 75.0% i 78.5%.

## **Statws Priodasol**

- Mae nifer y rhai sy'n briod wedi gostwng o 1171 i 1150, ond dyma'r categori uchaf o hyd o blith statws priodasol staff cyflogedig, gyda phobl sengl yn ail ar 940.
- Roedd y rhan fwyaf o geisiadau'n geisiadau gan bobl sengl, sef 43.7%.
- Cafwyd cynnydd yn nifer yr ymadawyr a oedd wedi cael ysgariad o 5.7% i 9.1%, ond pobl sengl oedd y rhan fwyaf o ymadawyr (43.0%).
- Pobl mewn partneriaeth sifil oedd â'r chyflog cyfartalog uchaf, sef £38,972.
- Cafwyd cynnydd yng nghyflog cyfartalog yr holl grwpiau ac eithrio'r rhai a ddywedodd eu bod yn cyd-fyw, rhai yr oedd yn well ganddynt beidio dweud a phobl weddw - gyda chyflog cyfartalog pob un o'r rheiny yn gostwng o gymharu â'r flwyddyn gynt.

## **Mamolaeth, Tadolaeth, a Mabwysiadu**

- Cafodd 63 o weithwyr corfforaethol dâl ac absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu yn ystod 2021/2022, sef cynnydd o 3 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

## Hunaniaeth Genedlaethol

- Dywedodd y rhan fwyaf o weithwyr eu bod yn Brydeinig (1119) neu'n Gymreig (983).
- Mae nifer yr ymgeiswyr a ddywedodd eu bod yn Gymreig yn parhau i fod yr hunaniaeth uchaf ymhlith ymgeiswyr, sef 48.0%.
- Yr hunaniaeth genedlaethol uchaf ar gyfer ymadawyr yw Cymreig, sef 42.6% sydd wedi cynyddu o 34.4% y llynedd.
- Y grŵp Gogledd Iwerddon yw'r grŵp â'r cyflog cyfartalog uchaf o hyd, sef £42,576, er bod hyn wedi gostwng o gymharu â £43,325 yn y flwyddyn gynt.
- Gwelwyd cynnydd yng nghyflog cyfartalog pob grŵp arall ar wahân i 'arall' a 'gwell gennyf beidio dweud'.

## Hil ac Ethnigrwydd

- Roedd mwyafrif y gweithwyr yn Wyn - dros 83%. Y grŵp uchaf oedd Gwyn a Phrydeinig, sef 63.6%.
- Gwyn a Phrydeinig yw'r categori uchaf o hyd ar gyfer ymgeiswyr, sef 72.6%. Roedd 79% o'r bobl a ymgeisiodd am swyddi yn Wyn, sy'n llai na'r flwyddyn flaenorol (88%).
- Mae nifer yr ymgeiswyr sy'n dewis peidio â chofnodi eu hil neu ethnigrwydd wedi cynyddu i 14.4%.
- Cynyddodd nifer y bobl a fynychodd ym mhob categori. Cynyddodd y ganran Gwyn a Chymreig o 11.1% i 15.4%.

- Ar gyfer pobl o gefndiroedd ethnig Gwyn, roedd cyflog i'r rheiny wedi cynyddu mewn saith o'r naw grŵp o gymharu â'r flwyddyn gynt. Gwelwyd gostyngiad yn y niferoedd Gwyn ac Albanaidd yn ogystal â Gwyn a Du Affricanaidd.
- Bu gostyngiad yng nghyflogau pobl yn y grwpiau Bangladeshaidd a heb ddatgelu. Bu cynnydd yng nghyflogau'r holl grwpiau ethnig eraill a'r rhai a ddewisodd beidio â chofnodi eu hethnigrwydd.
- Y gwahaniaeth yn y gyfradd ganolrifol fesul awr rhwng Gwyn Prydeinig a Lleafrifoedd Ethnig yw £0.15 (£12.82 ar gyfer Gwyn Prydeinig a £12.67 ar gyfer Lleafrifoedd Ethnig) sy'n ostyngiad o'i gymharu â'r gwahaniaeth o £0.35 y llynedd (£12.56 ar gyfer Gwyn Prydeinig a £12.21 ar gyfer Lleafrifoedd Ethnig). Y bwlch cyflog ethnig canolrifol ar ffurf canran yw 1.17%.
- Y gwahaniaeth yn y gyfradd gymedrig fesul awr rhwng Gwyn Prydeinig a Lleafrifoedd Ethnig yw £0.29 sy'n llai na'r flwyddyn gynt. Y bwlch cyflog ethnig canolrifol ar ffurf canran yw 1.97%.
- Roedd 81% o ymadawyr yn Wyn. Bu cynnydd yng nghanran yr ymadawyr Gwyn a Phrydeinig, sy'n parhau i fod gyda'r grŵp uchaf ar 69.1%

## **Crefydd neu Gred**

- Roedd y rhan fwyaf o'r staff naill ai heb grefydd (37.0%) yn Gristnogol (28.8%) neu heb gofnodi eu crefydd neu gred (29.4%).
- O ran nifer y staff heb grefydd, yr oedd yn well ganddynt beidio dweud, neu na wnaethant gofnodi eu crefydd neu gred, gwelwyd cynnydd yn yr holl gategorïau hynny.
- Dywedodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr nad oedd ganddynt unrhyw grefydd (48.9%) a oedd yn ostyngiad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (57.6%).

- Bu cynnydd yn nifer yr ymgeiswyr yr oedd yn well ganddynt beidio dweud neu a ddewisai beidio cofnodi eu crefydd neu gred, a'r rhai a ddywedodd eu bod yn Iddewig neu'n Sikh.
- Nid oes gan y rhan fwyaf o weithwyr sy'n derbyn hyfforddiant unrhyw grefydd (37.4%) sy'n ostyngiad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (38.8%). Y grŵp uchaf nesaf yw Cristnogion (32.6%).
- Cofnododd mwy o ymadawyr nad oedd ganddynt grefydd, 40.6% o gymharu â 37.7% y llynedd.
- Roedd y cyflog cyfartalog uchaf oedd cyflog y rhai a ddywedodd wrthym eu bod yn Hindŵaidd, sef £34,833.
- Bu cynnydd yng nghyflog cyfartalog y rhai a ddywedodd eu bod yn Fwdhaidd, Cristnogol neu Hindŵaidd. Bu gostyngiad yng nghyflog cyfartalog y rhai a ddywedodd eu bod Iddewig neu'n Fwslimaidd.

## Rhyw

- Roedd ein gweithlu corfforaethol yn cynnwys 67.3% (1793) o fenywod a 32.7% (873) o ddynion. Mae nifer y gweithwyr sy'n fenywod wedi cynyddu o 1744 i 1793 a nifer y gweithwyr sy'n ddynion hefyd wedi cynyddu o 872 i 873.
- Menywod yw dros ddwy ran o dair o bobl rydym yn eu cyflogi. Mae'n gyffredin canfod bod mwy o fenywod na dynion yn gweithio mewn awdurdodau lleol.
- Parhaodd y rhan fwyaf o fenywod i weithio mewn swyddi amser llawn parhaol (644 o weithwyr yn 2021/22). Mae hyn wedi cynyddu o gymharu â 615 yn y flwyddyn gynt. Mae nifer y menywod mewn swyddi parhaol rhan-amser wedi aros yr un peth ar 556.

- Roedd y rhan fwyaf o'r dynion yn parhau i weithio mewn swyddi parhaol amser llawn (577 o weithwyr yn 2021/22). Mae hyn wedi cynyddu o'r 563 yn y flwyddyn gynt. Mae nifer y dynion yn y swyddi llanw wedi cynyddu o 129 i 140 ers y flwyddyn gynt.
- Roedd 32.0% o fenywod a 25.7% o ddynion yn dal swyddi a oedd yn talu £15,000 - £19,999. Mae 29.9% o'r holl swyddi'n talu rhwng £15,000 a £19,999, sy'n ostyngiad o gymharu â'r flwyddyn gynt, lle'r oedd 32% o'r holl swyddi yn y band cyflog hwn. Dyma'r ystod cyflog uchaf yn gyffredinol, a'r uchaf i fenywod, ond y band cyflog uchaf i ddynion yw £20,000 - £24,999, ar 27.9%.
- Cyflog cyfartalog y dynion yw'r cyflog cyfartalog uchaf o hyd. Mae'r cyflog cyfartalog i ddynion a menywod wedi cynyddu, ond bu'r cynnydd hwnnw'n fwy i ddynion. Roedd hyn yr un peth â'r flwyddyn gynt. Bu cynnydd o £409 i fenywod o gymharu â chynnydd o £576 i ddynion.
- Y gwahaniaeth yn y gyfradd gymedrig fesul awr rhwng dynion a merched yw £0.71 (£15.21 i ddynion a £14.50 i fenywod) sy'n gynnydd o gymharu â £0.60 y llynedd. Y bwch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau fel canran o gyflog y dynion yw 4.67%.
- Y gwahaniaeth yn y gyfradd ganolrifol fesul awr rhwng dynion a merched yw £0.77. Y bwch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau fel canran o gyflog y dynion yw 5.73%.
- Roedd dros 66% o'r bobl a oedd yn bresennol mewn hyfforddiant yn fenywod. Mae hyn yn ostyngiad o gymharu â 76.3% y flwyddyn flaenorol. Mae canran y dynion a oedd yn bresennol mewn hyfforddiant wedi cynyddu o 23.7% i 33.5%.

- Roedd mwy o bobl a ymgeisiodd am swyddi yn fenywod (57.4% neu 1883). Gellir cymharu hyn â 28.2% neu 924 a oedd yn ddynion. Mae'r nifer na wnaethant ddatgelu eu rhyw wedi cynyddu o 5.1% i 14.5%.
- Gadawodd mwy o fenywod eu swyddi na dynion. Mae hyn yn ddisgwyliedig am ein bod yn cyflogi mwy o fenywod na dynion. Gostyngodd canran y bobl a adawodd eu swyddi ac a oedd yn fenywod (63.8% o gymharu â 67.9%) a chynyddodd canran y bobl a adawodd eu swyddi ac a oedd yn ddynion o 32.1% i 36.2%.

## Cyfeiriadedd Rhywiol

- Dywedodd y rhan fwyaf o'n staff eu bod yn heterorywiol (66.4%). Bu cynnydd yn y nifer a ddywedodd eu bod yn hoyw, yn lesbiaidd neu'n ddeurywiol. Roedd llai o weithwyr wedi dewis peidio dweud wrthym beth oedd eu cyfeiriadedd rhywiol, ond dewisodd cyfran uwch o weithwyr beidio cofnodi eu cyfeiriadedd rhywiol (28.8%) o gymharu â'r llynedd (27.0%).
- Wrth edrych ar gyflogau gweithwyr LHDTC, roedd 38% wedi'u cyflogi yn y band cyflog £20 - £29,999. Mae'r band cyflog uchaf wedi newid o gymharu â'r llynedd, pan oedd 33% yn y band £0,000 i £19,999.
- Gostyngodd y cyflog cyfartalog i rai yr oedd yn well ganddynt beidio dweud, neu a oedd yn ddeurywiol. Gwelwyd cynnydd yng nghyflog cyfartalog grwpiau eraill.
- Rydym yn monitro llwyddiant pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol o'r cam ymgeisio hyd at benodi'n llwyddiannus. Ar gyfer 2021/22, bu 160 o geisiadau a 33 o benodiadau llwyddiannus (21%) o gymharu ag 19 o 163 yn y flwyddyn gynt (12%). Mae hyn yn cynnwys swyddi gwag mewnol ac allanol.
- Gostyngodd cyfanswm canran yr ymgeiswyr a ddywedodd eu bod yn ddeurywiol, hoyw neu lesbiaidd rhyw fymryn i 4.7% o gymharu â 4.9% yn y

flwyddyn flaenorol. Mae canran yr ymgeiswyr a ddywedodd eu bod yn heterorywiol yn dal i fod gyda'r uchaf (72.5%) Mae nifer yr ymgeiswyr na chofnododd eu cyfeiriadedd rhywiol wedi cynyddu o 5.1% i 19.9%.

- Roedd dros 66.8% o'r rhai a ymadawodd yn heterorywiol. Mae hyn wedi cynyddu o 62.3%. Gwelwyd cynnydd yn yr holl feysydd eraill, gan gynnwys hoyw, lesbiaidd a deurywiol.

## Y Gymraeg

- Mae gan dros ddwy ran o bump o'n staff rywfaint o sgiliau Cymraeg: yn deall 40.3%; yn siarad 42.1%; yn darllen 44.1%; ac yn ysgrifennu 47.8%.
- O'r gweithwyr hynny â sgiliau Cymraeg, y rhai â dealltwriaeth dda o'r Gymraeg oedd â'r cyflog cyfartalog uchaf (£35,145).
- Roedd sgiliau Cymraeg ymgeiswyr fel a ganlyn: yn deall 45.9%; yn siarad 40.4%; yn darllen 36.6%; ac yn ysgrifennu 31.1%.

Byddwn yn parhau â'r gwaith hwn. Rydym am allu adrodd ar yr holl nodweddion gwarchoddedig.

Nid oes gennym yr holl wybodaeth y mae angen inni ei chasglu i fodloni'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol. Dyma'r rhesymau am hynny:

- bod angen diweddarau systemau adrodd ymhellach;
- bod rhai staff yn dewis peidio datgelu gwybodaeth bersonol;
- bod angen casglu data ychwanegol a chyfredol ar nodweddion gwarchoddedig;
- na chafwyd rhyw lawer o arweiniad i egluro'r hyn yr oedd yn rhaid inni adrodd arno.



Rydym wedi gwella ein data ar y Gymraeg. Rydym yn bwriadu cynnal arolwg o staff yn 2022/2023 i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am sgiliau'r Gymraeg.

Hyd yn oed wrth wneud gwelliannau, mae'n bosibl na fyddwn yn cael yr wybodaeth sydd ei hangen arnom. Tybiwn fod rhai pobl yn dewis peidio rhannu rhai o'u nodweddion gwarchodedig â ni. Rydym yn annog pobl i wneud hynny drwy egluro:

- pam ein bod yn gofyn am yr wybodaeth hon; a
- sut y gallwn ei defnyddio i fodloni eu hanghenion yn well.

Daw'r wybodaeth ar gyfer yr adroddiad hwn o systemau yn yr Adran Adnoddau Dynol. Mae hyn yn golygu bod yr wybodaeth mor gywir a chyflawn ag sy'n bosibl. Gwyddom y bydd angen inni barhau i weithio ar yr wybodaeth ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol. Bydd hyn yn ein helpu i fodloni gofynion y ddyletswydd gyffredinol.

## **I gael mwy o wybodaeth**

**Ewch i'n gwefan**

[www.valeofglamorgan.gov.uk/cy](http://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy)

## **Newyddion a Diweddariadau – yn syth i'ch mewnlwch**

Gallwch danysgrifio i Cyswllt UnFro a chael y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau ac ati, gan gynnwys negeseuon atgoffa gwastraff ac ailgylchu wythnosol. Cofrestrwch drwy wefan Cyngor Bro Morgannwg:

## **Cyfryngau Cymdeithasol**

Cael y newyddion, digwyddiadau a gwybodaeth ddiweddaraf gan Gyngor Bro Morgannwg.

Dilynwch @VOGCouncil ar Twitter neu hoffwch Cyngor Bro Morgannwg ar Facebook.

Os oes gennych ymholiad am wasanaethau'r Cyngor, cysylltwch â ni

- Ebst [c1v@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:c1v@valeofglamorgan.gov.uk)
- Neu ffoniwch 01446 700111